Cod Ymarfer Codi Arian: Atodiadau Cyfreithiol

L1.0 Cyfeiriadau Cyfreithiol a Chyfeiriadau at y Cod

Mae'r Cod Ymarfer Codi Arian yn gosod y safonau i'w dilyn ar draws pob maes codi arian. Mae'n defnyddio **RHAID*** a **RHAID PEIDIO*** (gyda seren) os oes gofyniad cyfreithiol a **RHAID** a **RHAID PEIDIO** (heb seren) pan nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol. Mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn trin pob safon, beth bynnag fo'r gofyniad cyfreithiol, yn broffesiynol ac felly mae'n disgwyl cydymffurfiaeth lawn â'r Cod ei hun.

Er bod y Cod yn cynnwys datganiadau a chanllawiau cyffredinol am y gofynion cyfreithiol, mae sefydliadau codi arian a chodwyr arian yn cael eu hannog i geisio eu cyngor eu hunain i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â'u gweithgareddau codi arian.

L2.0 Cyffredinol

Gall sefydliadau codi arian gymryd sawl ffurf gyfreithiol ac mae cyfraith wahanol yn berthnasol i wahanol fathau o sefydliadau. Y sefydliad codi arian a reoleiddir fwyaf yw elusen ac felly mae'r canllawiau hyn yn gymwys i elusennau yn bennaf. Ar ddechrau pob adran mae nodyn yn cadarnhau'r math o sefydliad y mae'r canllawiau yn cyfeirio ato.

a) Mae gofynion cyfreithiol yn amrywio rhwng tair awdurdodaeth gyfreithiol y Deyrnas Unedig (Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) a **RHAID*** eu dilyn.

Gweler y dolenni isod i Atodiadau Cyfreithiol y Cod Ymarfer Codi Arian.

L3.0 Talu Ymddiriedolwyr
L4.0 Cyfraith Teithio
L5.0 Hysbysebion
L6.0 Codi Arian mewn Lle Cyhoeddus
L7.0 Derbyn a Gwrthod Rhoddion
L8.0 Codwyr Arian Proffesiynol a Chytundebau
L9.0 Cyfranogwyr Masnachol a Chytundebau
L10.0 Datganiadau Deisyfu
L11.0 Dyletswyddau Ymddiriedolwyr
L12.0 Cyfeiriadau mewn Dogfennau
L13.0 Rafflau a Lotrïau
L14.0 Diogelu Data

L3.0 Talu Ymddiriedolwyr

L3.1 Cymru a Lloegr

Mae'r cyfyngiadau hyn ar dalu ymddiriedolwyr yn ymwneud â sefydliadau codi arian sy'n elusennau yn unig.

Naill ai:

- mae cyfansoddiad yr elusen yn darparu'n benodol ar gyfer y math o daliad a gynigir neu mae'r taliad wedi'i awdurdodi gan orchymyn y Comisiwn Elusennau neu'r Llys

Neu:

- nid yw cyfansoddiad yr elusen yn gwahardd yn benodol y math o daliadau a gynigir
- nid yw'r taliad am fod yn ymddiriedolwr neu o dan gontract cyflogaeth
- mae'r elusen yn cydymffurfio â darpariaethau adran 185 o Ddeddf 2011 ("y Ddeddf") (gweler isod)

a) Y darpariaethau yn adran 185 o'r Ddeddf y mae'n **RHAID*** gydymffurfio â nhw yw:

- **RHAID*** i'r ymddiriedolwyr ystyried canllawiau perthnasol y Comisiwn Elusennau (ar hyn o bryd CC11 - Treuliau a Thaliadau Ymddiriedolwyr) cyn llofnodi cytundeb i dalu ymddiriedolwr;
- **RHAID*** i'r taliad neu'r uchafswm gael ei osod mewn cytundeb ysgrifenedig;
- **RHAID** i'r taliad neu'r uchafswm **BEIDIO*** â bod yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol;
- **RHAID*** i'r ymddiriedolwyr benderfynu, cyn llofnodi'r cytundeb, bod y trefniant er lles gorau'r elusen; a **RHAID*** i nifer yr ymddiriedolwyr sy'n cael eu talu o dan adran 185, neu fel arall, fod yn lleiafrif o gyfanswm ymddiriedolwyr yr elusen;

Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn gymwys i daliadau i rai unigolion sy'n gysylltiedig ag ymddiriedolwyr, gan gynnwys partner busnes a'r teulu. Mae canllawiau pellach ar gael ar wefan y Comisiwn Elusennau.

L3.2 Yr Alban

Gall taliad i ymddiriedolwr elusen (neu unigolyn cysylltiedig) gael ei wneud dim ond:

Naill ai:

- os yw cyfansoddiad yr elusen yn cynnwys darpariaeth awdurdodi sy'n caniatáu'n benodol rhoi'r tâl i'r darparwr gwasanaeth, ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig dan sylw, ac roedd y ddarpariaeth hon mewn grym ar 15 Tachwedd 2004 (y dyddiad y cafodd Deddf 2005 ei rhoi gerbron Senedd yr Alban am y tro cyntaf)

Neu:

- os yw'r elusen yn cydymffurfio â darpariaethau adran 67 o Ddeddf 2005 (gweler isod)

a) Y darpariaethau yn adran 67 o Ddeddf 2005 y mae'n **RHAID*** gydymffurfio â nhw yw:

- **RHAID*** i'r uchafswm taliad gael ei nodi mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr unigolyn sy'n darparu'r gwasanaethau a'r elusen;
- **RHAID*** i'r uchafswm fod yn rhesymol yn yr amgylchiadau;
- **RHAID*** i'r ymddiriedolwyr elusen fodloni eu hunain cyn llofnodi'r cytundeb ei fod er lles yr elusen i'r gwasanaethau gael eu darparu gan yr ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig ar gyfer yr uchafswm hwnnw;
- yn union ar ôl i'r cytundeb gael ei lofnodi, **RHAID*** i nifer yr ymddiriedolwyr sy'n derbyn tâl, sydd â hawl i gael tâl neu sy'n gysylltiedig ag ymddiriedolwr elusen arall sy'n cael ei dalu neu sydd â hawl i gael ei dalu fod yn y lleiafrif; a
- **RHAID** i gyfansoddiad neu ddogfen lywodraethol yr elusen **BEIDIO*** â gwahardd yn benodol rhoi'r tâl.

b) O dan y gyfraith gyffredin ar wrthdaro buddiannau, **RHAID** i ymddiriedolwr elusen a fydd yn derbyn tâl neu sy'n gysylltiedig ag unigolyn a fydd yn derbyn tâl **BEIDIO*** â chymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau perthnasol. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i gyfeirio at Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) ond dylai ymddiriedolwyr ystyried y canllawiau perthnasol (ar hyn o bryd

adran 5 o'r 'Canllaw i Ymddiriedolwyr Elusennau: Gweithredu gyda gofal a diwydrwydd')).

Nid yw unrhyw beth yn atal ymddiriedolwr rhag cael ei dalu am y gwasanaethau a ddarperir yn ei rinwedd fel elusen neu o dan gontract cyflogaeth.

Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn gymwys i daliadau i'r unigolion hynny sy'n gysylltiedig ag ymddiriedolwyr, gan gynnwys partneriaid busnes a'r teulu, pe gallai'r ymddiriedolwr elusen elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r tâl a roddir i'r unigolyn cysylltiedig. Mae canllawiau pellach ar gael yng nghanllaw OSCR ar gyfer ymddiriedolwyr elusen ac yn adran 68(2) o Ddeddf 2005.

Nid yw'r rheolau tâl hefyd yn atal derbyn tâl os yw wedi'i awdurdodi gan orchymyn y Lles mewn Sesiwn neu unrhyw ymddefiad.

L3.3 Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon y darpariaethau sy'n cwmpasu talu ymddiriedolwyr yw adran 88 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008. Mae'n gymwys i ymddiriedolwyr ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwyr. Gellir dehongli 'mewn perthynas â' fel teulu agos, partner, cwmni'r ymddiriedolwr a rhywun sydd mewn busnes â'r ymddiriedolwr.

Mae canllawiau i ymddiriedolwyr ar wneud cytundebau ar gyfer taliadau heb gael eu cytuno eto gan Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

L3.2 Yr Alban

Gall taliad i ymddiriedolwr elusen (neu unigolyn cysylltiedig) gael ei wneud dim ond:

Naill ai:

- os yw cyfansoddiad yr elusen yn cynnwys darpariaeth awdurdodi sy'n caniatáu'n benodol rhoi'r tâl i'r darparwr gwasanaeth, ymddiriedolwr neu'r unigolyn cysylltiedig dan sylw, ac roedd y ddarpariaeth hon mewn grym ar 15 Tachwedd 2004 (y dyddiad y cafodd Deddf 2005 ei rhoi gerbron Senedd yr Alban am y tro cyntaf)

Neu:

- os yw'r elusen yn cydymffurfio â darpariaethau adran 67 o Ddeddf 2005 (gweler isod)

a) Y darpariaethau yn adran 67 o Ddeddf 2005 y mae'n **RHAID*** gydymffurfio â nhw yw:

- **RHAID*** i'r uchafswm taliad gael ei nodi mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr unigolyn sy'n darparu'r gwasanaethau a'r elusen;
- **RHAID*** i'r uchafswm fod yn rhesymol yn yr amgylchiadau;
- **RHAID*** i'r ymddiriedolwyr elusen fodloni eu hunain cyn llofnodi'r cytundeb ei fod er lles yr elusen i'r gwasanaethau gael eu darparu gan yr ymddiriedolwr elusen neu'r unigolyn cysylltiedig ar gyfer yr uchafswm hwnnw;
- yn union ar ôl i'r cytundeb gael ei lofnodi, **RHAID*** i nifer yr ymddiriedolwyr sy'n derbyn tâl, sydd â hawl i gael tâl neu sy'n gysylltiedig ag ymddiriedolwr elusen arall sy'n cael ei dalu neu sydd â hawl i gael ei dalu fod yn y lleiafrif; a
- **RHAID** i gyfansoddiad neu ddogfen lywodraethol yr elusen **BEIDIO*** â gwahardd yn benodol rhoi'r tâl.

b) O dan y gyfraith gyffredin ar wrthdaro buddiannau, **RHAID** i ymddiriedolwr elusen a fydd yn derbyn tâl neu sy'n gysylltiedig ag unigolyn a fydd yn derbyn tâl **BEIDIO*** â chymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau perthnasol. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i gyfeirio at Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) ond dylai ymddiriedolwyr ystyried y canllawiau perthnasol (ar hyn o bryd adran 5 o'r 'Canllaw i Ymddiriedolwyr Elusennau: Gweithredu gyda gofal a diwydrwydd').

Nid yw unrhyw beth yn atal ymddiriedolwr rhag cael ei dalu am y gwasanaethau a ddarperir yn ei rinwedd fel elusen neu o dan gontract cyflogaeth.

Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn gymwys i daliadau i'r unigolion hynny sy'n gysylltiedig ag ymddiriedolwyr, gan gynnwys partneriaid busnes a'r teulu, pe gallai'r ymddiriedolwr elusen elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r tâl a roddir i'r unigolyn cysylltiedig. Mae canllawiau pellach ar gael yng nghanllaw OSCR ar gyfer ymddiriedolwyr elusen ac yn adran 68(2) o Ddeddf 2005.

Nid yw'r rheolau tâl hefyd yn atal derbyn tâl os yw wedi'i awdurdodi gan orchymyn y Lles mewn Sesiwn neu unrhyw ymddefiad.

L3.3 Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon y darpariaethau sy'n cwmpasu talu ymddiriedolwyr yw adran 88 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008. Mae'n gymwys i ymddiriedolwyr ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolwyr. Gellir dehongli "mewn perthynas â" fel teulu agos, partner, cwmni'r ymddiriedolwr a rhywun sydd mewn busnes â'r ymddiriedolwr.

Mae canllawiau i ymddiriedolwyr ar wneud cytundebau ar gyfer taliadau heb gael eu cytuno eto gan Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

L4.0 Cyfraith Teithio

L4.1 Cyfraith Teithio

Mae'r adran hon yn gymwys i bob sefydliad codi arian heblaw os oes cyfeiriad penodol at elusennau.

Nid oes gofynion cyfreithiol arbennig ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys hediadau a rhai gwasanaethau teithio eraill.

Mae Rheoliadau Teithio Pecyn, Gwyliau Pecyn a Gwibdeithiau Pecyn 1992 (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau Teithio Pecyn") yn gymwys i

"cyfuniad wedi'i drefnu ymlaen llaw rhwng o leiaf dau o'r cydrannau canlynol pan gânt eu gwerthu neu eu cynnig i'w gwerthu am bris cynhwysol a phan fydd y gwasanaeth yn cwmpasu cyfnod o fwy na 24 awr neu'n cynnwys llety dros nos:

a) trafnidiaeth;
b) llety
c) gwasanaethau twristiaeth eraill heb fod yn atodol i drafnidiaeth neu lety gan ddarparu ar gyfer cyfran sylweddol o'r pecyn."

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau yn cael eu hysgwyddo gan "y trefnwr". Diffinnir hyn fel "yr unigolyn sydd, heblaw'n achlysurol, yn trefnu teithiau pecyn ac yn eu gwerthu neu'n eu cynnig i'w gwerthu, boed hynny'n uniongyrchol neu drwy adwerthwr." Mae rhwymedigaethau hefyd ar adwerthwyr sy'n gwerthu gwyliau pecyn i ddefnyddwyr. Yn gyffredinol, bydd sefydliadau codi arian am i'r gweithredwr teithiau arbenigol fod yn "drefnwr" sydd â chyfrifoldeb am gydymffurfio. Mae rhagor o wybodaeth sylfaenol ar gael o'r Adran Busnes,

Arloesi a Sgiliau - ond mae hwn yn faes cymhleth a dylech geisio cyngor proffesiynol.

Mae gofynion cyfreithiol ychwanegol ar gyfer digwyddiadau sy'n cynnwys hediadau (o dan Reoliadau Trwyddedu Teithio Awyr Hedfan Sifil 1995 ("Rheoliadau ATOL"). Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil ("CAA") wedi cyhoeddi canllawiau yn y gorffennol i elusennau sy'n trefnu digwyddiadau her sy'n cynnwys hediadau. Mae gwybodaeth fanwl ar gael ar wefan CAA. Mae hwn yn faes cymhleth hefyd a dylech geisio cyngor cyfreithiol proffesiynol. Efallai y bydd angen cydsyniad yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) neu hysbysu'r CAA ar gyfer arddangosfeydd hedfan, gweithredu balwnau ar gyfer hediadau cyhoeddus a "digwyddiadau anarferol eraill yn yr awyr" (e.e. rhyddhau balwnau ac arddangosiadau tân gwyllt).

L5.0 Hysbysebion

L5.1 Hysbysebion

Mae'r adran hon yn gymwys i bob math o sefydliadau codi arian. Mae Cod Hysbysebu a Hyrwyddo Gwerthiannau a Marchnata Uniongyrchol y DU (Cod CAP) yn mynnu bod hysbysebion heb eu darlledu yn gyfreithiol, yn deg, yn onest ac yn dweud y gwir. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Bwyllgor Ymarfer Hysbysebu (www.cap.org.uk).

Mae Cod Hysbysebu Darlledu (Cod BCAP), a orfodir gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, yn cynnwys gofynion tebyg ar gyfer pob hysbyseb ar y radio a'r teledu. Bydd cydymffurfio â'r codau hyn yn sicrhau bod hysbysebion yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a amlinellir isod.

- a) Yn Lloegr, **RHAID** i hysbysebion cyhoeddus ar gyfer digwyddiad **BEIDIO*** â bod yn groes i Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Rheoli Hysbysebion 2007 (fel y'u diwygiwyd) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.
- b) Yn yr Alban, **RHAID** i hysbysebion cyhoeddus **BEIDIO*** â bod yn groes i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Yr Alban) 1984, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Diwygio 1992. Ni all unrhyw hysbyseb gael ei harddangos heb gydsyniad yr awdurdod cynllunio, er bod caniatâd tybiedig gan hysbysebion sydd wedi'u cynnwys mewn dosbarthiadau arbennig. Mae Deddf Ffyrdd (yr Alban) 1984 (adran 100) yn gwahardd unrhyw beth (gan

gynnwys hysbyseb) rhag cael ei roi ar ffordd gyhoeddus heb gydsyniad yr awdurdod ffyrdd. Mae cyfreithiau hefyd ynghylch arddangos hysbysebion yn gyhoeddus ac ar y briffordd yn gyffredinol.

- c) **RHAID*** i bob hysbyseb gydymffurfio â'r gyfraith masnachol a hawlfraint. Dylai caniatâd ar gyfer hysbysebion ar ffurf bwrdd biliau gael ei geisio gan yr awdurdod cynllunio lleol, a gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol hefyd. Gweler hefyd yr Asiantaeth Priffyrdd.

Gall rhoi datganiadau camarweiniol mewn hysbysebion arwain at droseddau hefyd yn ogystal â rhwymedigaethau sifil (h.y. heb fod yn droseddol), er enghraifft o dan Reoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008, Rheoliadau Diogelu Busnes rhag Marchnata Camarweiniol 2008 a Rheoliadau Teithio Pecyn, Gwyliau Pecyn a Gwibdeithiau Pecyn 1992.

L6.0 Codi Arian mewn Lle Cyhoeddus

L6.1 Yn yr adran hon:

L6.2 Casgliadau ar y Stryd - Cymru a Lloegr

L6.2.1 Ffynonellau cyfraith

- Mae Deddf yr Heddlu, Ffatrïoedd ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916 yn sefydlu hawl Awdurdodau Lleol (Cynghorau Dosbarth), yr Heddlu Metropolitan a Chyngor Cyffredin Dinas Llundain i greu rheoliadau sy'n rheoli casgliadau ar y stryd neu mewn mannau cyhoeddus a wneir er budd "dibenion elusennol neu eraill".
- Mae rheoliadau enghreifftiol yng Ngorchymyn Casgliadau Elusennol (Darpariaethau Trosiannol) 1974 y mae nifer, ond nid pob un, o'r awdurdodau lleol wedi'u mabwysiadu. Bydd gofynion o dan y rheoliadau hyn yn cael eu hamlygu trwy'r ddogfen.

L6.2.2 Diffiniadau

- Ystyr "Casgliadau ar y Stryd" yw casglu arian neu werthu nwyddau er budd dibenion elusennol neu eraill mewn unrhyw stryd neu le cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

- Mae "stryd" yn cynnwys unrhyw briffordd ac unrhyw bont, ffordd, lôn, troetffordd, sgwâr, cwrt, ale, neu fynediad cyhoeddus, boed yn dramwyfa neu beidio.
- Ni ddiffinnir "lle cyhoeddus" yn y ddeddfwriaeth. Ceir rhai cyfreithiau achoson ar yr hyn a olygir wrth le cyhoeddus a ddylai mewn gwirionedd gwmpasu rhywle lle y bydd aelodau'r cyhoedd yn mynd hyd yn oed pan nad oes unrhyw hawl gyfreithiol ganddynt i wneud hynny neu unrhyw fan lle y gwahoddir iddynt fynd. Nid yw'n cynnwys unrhyw le y gall aelodau'r cyhoedd fynd iddo dim ond trwy dalu neu dderbyn caniatâd penodol. Yn ymarferol mae ardaloedd megis blaengwrt gorsaf, canolfannau siopa a meysydd parcio archfarchnadoedd yn cael eu trin fel llefydd preifat ac nid llefydd cyhoeddus. Mae diwygiadau arfaethedig i'r drefn casgliadau cyhoeddus yn debygol o gynnwys diffiniad o'r hyn a ystyrir yn lle cyhoeddus.

a) Yn gyffredinol dadleuir nad yw casgliadau ar gyfer debydau uniongyrchol yn cael ei ystyried yn gasgliad o arian neu eiddo arall. Wedi dweud hynny, mae'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn mynnu bod **RHAID** dilyn yr holl ofynion casglu yn y Cod ar gyfer casgliadau tebyg uniongyrchol, heblaw pan fyddant yn cyfeirio'n uniongyrchol at gasgliadau arian.

L6.2.3 Caniatâd

a) **RHAID** i gasgliad **BEIDIO*** â digwydd hyd nes bod yr hyrwyddwr wedi cael trwydded gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol.

b) **RHAID*** gwneud cais am y caniatâd o leiaf mis cyn dyddiad y casgliad.

L6.2.4 Oedran y casglwyr

Mae'r rheoliadau enghreifftiol yn nodi mai 16 yw oedran lleiaf casglwr. Yn Llundain gellir lleihau hyn i 14 mewn rhai sefyllfaoedd.

L6.2.5 Talu Casglwyr

a) Os dilynir y rheoliadau enghreifftiol, **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO*** â chael eu talu i gynnal casgliadau ar y stryd ond gellir eu talu i wneud casgliad o dy i dy.

b) **RHAID*** i unrhyw daliadau eraill o'r casgliad gael eu cytuno ymlaen llaw â'r awdurdod trwyddedu.

L6.2.6 Deunyddiau

a) **RHAID*** i bob casglwr gael awdurdod ysgrifenedig hyrwyddwr y casgliad, a chynhyrchu hyn pan ofynnir iddo wneud hynny gan swyddog o'r cyngor neu heddwas.

b) **RHAID*** i bob casglwr gario blwch casglu.

c) **RHAID*** i bob blwch casglu gael ei rifo'n gywir a **RHAID** iddo gael ei gau yn ddiogel a'i seilio mewn ffordd sy'n ei atal rhag cael ei agor heb i'r sêl gael ei dorri.

d) **RHAID*** i flychau casglu ddangos mewn modd proffesiynol enw'r elusen neu'r gronfa sydd i'w helwa o'r casgliad.

e) os yw'r casgliad ar gyfer elusen gofrestredig gydag incwm dros £10,000, **RHAID*** i'r holl ddeunyddiau a brintiwyd nodi bod yr elusen yn elusen gofrestredig.

L6.2.7 Datganiadau Deisyfu

Cyflwynodd Deddf Elusennau 2006 rwymedigaeth ar rai pobl sy'n codi arian ar gyfer elusennau na fyddai, er eu bod nhw'n cael eu talu, wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o godwr arian proffesiynol, sef:

a) Unigolion sy'n cael eu talu i gynnal casgliad elusennol cyhoeddus (ac eithrio unrhyw un sy'n derbyn £5 neu lai y dydd neu £300 neu lai y flwyddyn). **RHAID*** i unigolion o'r fath wneud datganiad sy'n cyfateb i ddatganiad adran 60 o Ddeddf Elusennau 1992.

b) Gweithwyr, swyddogion ac ymddiriedolwyr cyflogedig sy'n cynnal casgliad elusennol cyhoeddus (yn destun i'r un eithriad 'tâl is' a nodir uchod).

c) Os yw'r unigolion hyn yn gwneud deisyfiadau am rodd ar gyfer elusen arbennig mae'n **RHAID*** iddynt wneud datganiad sy'n nodi:

- enw neu enwau'r sefydliadau a fydd yn elwa ac os yw'n fwy nag un, pa gyfran y byddant yn elwa;
- y ffaith eu bod nhw'n swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr sefydliad; a'r

- ffaith eu bod yn cael eu talu fel swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr, neu am weithredu fel casglwr. Nid oes rhaid iddynt ddatgan swm eu tâl.

d) Os yw'r unigolion hyn yn gwneud deisyfiad at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol (yn hytrach nag elusen benodol a enwir), mae'n **RHAID*** iddynt wneud datganiad tebyg i nodi eu bod yn cael eu talu ar gyfer y dibenion cyffredinol hynny.

L6.2.8 Ymddygiad Casglwyr

a) **RHAID*** i gasglwyr gasglu ar yr amserau ac yn yr ardaloedd a nodir yn y drwydded yn unig.

b) Os dilynir rheoliadau enghreifftiol, **RHAID*** i gasglwyr sefyll yn eu hunfan a sefyll o leiaf 25 metr i ffwrdd o unrhyw gasglwr arall.

c) **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO*** â chynnal y casgliad mewn modd sy'n debygol o boeni neu beri anghyfleustra i unrhyw un a **RHAID** iddynt **BEIDIO*** ag "erfyn yn daer ar unrhyw un" a'i boeni.

d) **RHAID*** i roddion o arian gael eu rhoi yn y blwch casglu ar unwaith.

L6.2.9 Enillion Casgliadau

a) **RHAID*** i bob casglwr roi pob blwch casglu heb ei agor sydd yn ei feddiant i hyrwyddwr.

b) **RHAID*** i flychau casglu gael eu hagor a'r cynnwys ei gyfrif ym mhresenoldeb hyrwyddwr y casgliad a rhywun cyfrifol arall sydd heb fod yn berthynas iddo, neu gan swyddog banc.

c) **RHAID*** cadw cofnod o'r enillion a gasglwyd gan bob casglwr a manylion y deunyddiau casglu a ddychwelwyd.

L6.2.10 Gwybodaeth i'w rhoi i'r awdurdod trwyddedu

a) O fewn mis o ddyddiad y casgliad (tri mis yn Llundain) **RHAID*** i'r hyrwyddwr anfon datganiad (yn y ffurf a nodwyd yn y Rheoliadau) yn dangos y swm a dderbyniwyd a'r treuliau a'r taliadau a gafwyd, wedi'i ardystio gan yr hyrwyddwr a chyfrifydd cymwysedig. Dylai gynnwys rhestr o'r casglwyr a rhestr o'r symiau sydd wedi'u cynnwys ym mhob blwch casglu.

Gall fod gofyniad hefyd i roi hysbyseb yn cadarnhau gwybodaeth arbennig am y casgliad.

L6.3 Casgliadau ar y Stryd - yr Alban

L6.3.1 Ffynonellau Cyfraith

Ar hyn o bryd mae'r holl gasgliadau ar y stryd/o dŷ i dŷ o'r fath yn yr Alban yn cael eu rheoli gan adran 119 o'r Ddeddf Llywodraeth Ddinesig (yr Alban) 1982 a Rheoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus (yr Alban) 1984.

L6.3.2 Diffiniadau

- Ystyr "Casgliad Stryd" yw casgliad sy'n cael ei wneud trwy ddeisyfu cyfraniadau gan bobl sy'n mynd heibio mewn lle cyhoeddus
- Ystyr "Lle Cyhoeddus" yw unrhyw le (boed yn dramwyfa neu beidio) y mae gan y cyhoedd fynediad anghyfyngedig iddo ac mae'n cynnwys
- drws neu fynedfa eiddo sy'n ffinio unrhyw le o'r fath
- unrhyw fynediad cyffredin, clos, cwrt, grisiau, gerddi neu iard sy'n gysylltiedig ag unrhyw denement neu grŵp o dai a berchenogir ar wahân

Bydd y diffiniad o le cyhoeddus y newid yn yr Alban os a phryd y gweithredir darpariaethau Casgliadau Llesiannol Cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005.

L6.3.3 Caniatâd

a) Oni bai ei fod yn hyrwyddwr esempt, **RHAID*** i gais ysgrifenedig gael ei wneud o leiaf mis ymlaen llaw (neu o fewn cyfnod arall fel y pennir gan yr awdurdod lleol).

L6.3.4 Oedran y casglwyr

Yr isafswm oedran ar gyfer casglwr sy'n cymryd rhan mewn casgliad ar y stryd yw 14 oed.

L6.3.5 Deiliaid Esempt

a) Yn yr Alban, gall unrhyw un sy'n trefnu casgliadau dros y cyfan o'r Alban neu ran sylweddol ohoni wneud cais i Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) i fod yn Hyrwyddwr Esempt. Ar hyn o bryd mae 16 o hyrwyddwyr esempt.

b) Yn yr Alban **RHAID*** i Hyrwyddwyr Esempt adrodd yn flynyddol i OSCR.

c) **RHAID*** i'r adroddiad hwn gynnwys adroddiad wedi'i archwilio o'r casgliadau a wnaed (gan gynnwys dadansoddiad fesul awdurdod lleol a manylion am y treuliau a gododd) yn ogystal â datganiad wedi'i lofnodi gan y trefnwr a datganiad yr archwiliwr.

d) **RHAID*** iddynt gyhoeddi hysbysiad yn crynhoi'r adroddiad o'r casgliad wedi'i archwilio o gasgliadau mewn papur newydd sy'n cael ei gylchredeg yn genedlaethol yn yr Alban o fewn mis o gyflwyno'r cofnodion i'r Rheoleiddiwr.

L6.3.6 Deunyddiau

a) **RHAID*** i amlenni casglu gael eu defnyddio dim ond os yw'r casgliad o dŷ i dŷ.

b) **RHAID*** i bob casglwr mewn casgliad trwyddedig gael y canlynol:

- bathodyn casglwr; a
- thystysgrif awdurdod;
- blwch casglu wedi'i selio (gan ddangos enw'r cronfeydd neu'r sefydliadau sydd i elwa o'r casgliad); a
- chyfarwyddiadau clir ynghylch y drefn briodol ar gyfer cynnal y casgliad.

c) **RHAID*** i fathodyn casglwr:

- ddangos enw cofrestredig y sefydliadau a fydd yn elwa o'r casgliad wedi'u hargraffu arno, ynghyd ag unrhyw enw arall y mae'n ei ddefnyddio
- dangos rhif elusen gofrestredig, os yw'n gymwys, a chyfeirio at statws elusennol y sefydliad oni bai bod hyn wedi'i gynnwys eisoes yn ei enw

d) **RHAID*** i dystysgrif awdurdod y casglwr ddangos:

- enw cofrestredig a chyfeiriad y cronfeydd neu'r sefydliadau sydd i'w helwa o'r casgliad, yn ogystal ag unrhyw enw arall y mae'n ei ddefnyddio;
- dangos rhif elusen gofrestredig, os yw'n gymwys, a chyfeirio at statws elusennol y sefydliad (oni bai bod hyn wedi'i gynnwys eisoes yn ei enw);
- enw a chyfeiriad y casglwr;
- ble mae'r casglwr wedi'i awdurdodi i gasglu;
- y cyfnod pan fydd y casglwr wedi'i awdurdodi i gasglu;

- llofnod y casglwr a hyrwyddwr y casgliad. Gall asiant yr hyrwyddwr lofnodi ar ei ran ar yr amod fod enw a chyfeiriad yr asiant yn cael eu rhoi hefyd; a
- enw a chyfeiriad y trefnwr.

e) Os yw arian yn cael i gasglu, **RHAID*** i bob casglwr gael blwch casglu wedi'i selio neu amlenni casglu yn unol â'r gofynion penodol ar gyfer yr awdurdodaeth honno sy'n datgan pryd y gall bob un gael ei ddefnyddio a pha wybodaeth y mae'n **RHAID** ei chynnwys (gweler isod).

L6.3.7 Datganiadau Deisyfu

a) Yn yr Alban, mae rheolau ynghylch datganiadau deisyfu yn gymwys a **RHAID*** eu dilyn gan godwyr arian proffesiynol sy'n gwneud deisyfiadau, cyfranogwyr masnachol sy'n gwneud cynrychiolaethau a Chodwyr Arian Llesiannol (heblaw gwirfoddolwyr) sy'n ymgymryd â chodi arian llesiannol.

L6.3.8 Ymddygiad Casglwyr

a) Wrth ymgymryd â chasgliad trwy gyfrwng blwch casglu wedi'i selio, **RHAID*** i'r casglwr dderbyn rhoddion sy'n cael eu gwneud gan y rhoddwr yn eu rhoi mewn blwch casglu.

b) **RHAID*** i godwyr arian sy'n cynnal casgliadau trwyddedig ddangos bathodynnau adnabod.

L6.3.9 Enillion Casgliad

a) **RHAID*** i drefniadau gael eu gwneud i dderbyn enillion casgliad unrhyw gasgliad trwyddedig a'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir a heb eu defnyddio sy'n gysylltiedig â hynny gan gynnwys y bathodyn casglu a'r dystysgrif awdurdod yn y man penodedig wedi'i awdurdodi gan drefnwr y casgliad.

b) **RHAID*** cadw cofnod o'r enillion a gasglwyd gan bob casglwr a manylion y deunyddiau casglu a ddychwelwyd.

c) **RHAID*** i'r holl enillion o bob casgliad gael eu rhoi i drefnwr y casgliad heb eu hagor, ynghyd â bathodyn y casglwr a'r dystysgrif awdurdod ac unrhyw ddeunyddiau casglu heb eu defnyddio cyn gynted ag y mae'n rhoi'r gorau i weithredu fel casglwr (h.y. ar ddiwedd y casgliad) neu pan fydd y trefnwr yn gofyn amdanynt.

d) **RHAID*** i flychau/amlenni casglu wedi'u selio gael eu hagor dim ond gan y trefnwr neu ei asiant ym mhresenoldeb person cyfrifol annibynnol, neu gan swyddog banc (ar ôl iddynt gael eu cyflwyno heb eu hagor i'r banc).

e) **RHAID*** i gofnod gael ei gadw o bob blwch casglu wedi'i rifo sy'n cael ei ddychwelyd yn ogystal â'r enillion ym mlwch casglu pob casglwr (oni bai eu bod wedi'u hagor gan swyddog banc). Yn achos casgliad amlen, **RHAID*** cadw cofnod o nifer yr amlenni a ddosbarthwyd ac a ddychwelwyd gan bob casglwr, a chyfanswm yr arian ynddynt.

L6.3.10 Gwybodaeth i'w chyflwyno ar ôl y casgliad

a) **RHAID*** i drefnwyr y casgliadau gyhoeddi crynodeb o'r casgliad a'r cyfrifon o fewn mis o gyflwyno'r cyfrifon, oni bai bod y casgliad wedi cael ei gynnal mewn un ardal awdurdod lleol ac mae'r awdurdod lleol yn ildio'r gofyniad hwn. **RHAID*** i'r crynodeb hwn gynnwys gwybodaeth benodol a chael ei gyhoeddi mewn un neu ragor o bapurau newydd a gylchredir yn yr ardal y cafodd y casgliad ei drwyddedu ar ei chyfer. **RHAID*** i hyrwyddwyr esempt gyhoeddi'r crynodeb mewn papur newydd sy'n cael ei gylchredeg trwy'r Alban gyfan.

b) **RHAID*** i'r derbyniadau a phapurau sy'n gysylltiedig â'r casgliad gael eu cadw am ddwy flynedd ar ôl cyflwyno'r cyfrifon.

L6.4 Casgliadau ar y Stryd - Gogledd Iwerddon

L6.4.1 Ffynonellau Cyfraith

Mae casgliadau ar y stryd yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu rheoli gan Ddeddf yr Heddlu, Ffatrïoedd, ac ati (Darpariaethau Amrywiol) 1916. Roedd y Ddeddf wedi sefydlu'r hawl i Wasanaeth yr Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) wneud rheoliadau yn rheoli casgliadau ar y stryd neu mewn mannau cyhoeddus a gynhelir at ddibenion elusennol neu ddibenion eraill.

L6.4.2 Diffiniadau

- Mae "stryd" yn cynnwys unrhyw briffordd ac unrhyw bont, ffordd, lôn, troetffordd, sgwâr, cwrt, ale, neu fynediad cyhoeddus, boed yn dramwyfa neu beidio.

- Ni ddiffinnir "Lle Cyhoeddus" yn y ddeddfwriaeth, a gall rhai eiddo preifat gael eu trin fel pe baent yn fannau cyhoeddus, er enghraifft, meysydd parcio archfarchnadoedd neu ganolfannau siopa.

L6.4.3 Caniatâd

a) Mae caniatâd yn cael ei roi gan PSNI. Dylid cysylltu â gorsaf leol y PSNI. Y gofyniad lleiaf ar gyfer rhoi rhybudd yw diwrnod cyntaf y mis cyn y mis pan gaiff y casgliad ei gynnal. **RHAID** i gasgliad **BEIDIO*** â digwydd hyd nes bod yr hyrwyddwr wedi cael trwydded.

L6.4.4 Oedran y Casglwyr

a) **RHAID*** i gasglwyr fod yn hŷn nag 16 oed.

L6.4.5 Talu Casglwyr

a) **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO*** â chael eu talu.

L6.4.6 Deunyddiau

a) **RHAID*** i bob casglwr gael awdurdod ysgrifenedig hyrwyddwr y casgliad, a chynhyrchu'r awdurdod hwn pan ofynnir iddo wneud hynny.

b) **RHAID*** i bob casglwr fod â blwch casglu.

c) **RHAID*** i bob blwch casglu gael ei rifo'n gywir a **RHAID*** iddo gael ei gau'n ddiogel a'i seilio mewn ffordd sy'n ei atal rhag cael ei agor heb i'r sêl gael ei dorri.

d) **RHAID*** i flychau casglu ddangos mewn modd proffesiynol enw'r elusen neu'r gronfa sydd i elwa o'r casgliad.

L6.4.7 Ymddygiad Casglwyr

a) **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO*** ag achosi rhwystr, anghyfleustra neu ddiflastod i unrhyw un nag aflonyddu neu boeni unrhyw un.

b) Dylai casglwyr sefyll yn ei unfan. Ni ddylai mwy na dau unigolyn gasglu yn yr un lle a dylai casglwr sefyll o leiaf dau ddeg pum metr i ffwrdd o unrhyw gasglwr arall.

c) **RHAID** i anifail **BEIDIO*** â bod yng nghwmni casglwyr (ac eithrio ci tywys).

d) **RHAID*** i roddion gael eu rhoi yn y blwch casglu ar unwaith.

L6.4.8 Enillion Casgliadau

a) **RHAID*** i fylchau casglu gael eu dychwelyd heb eu hagor gyda'r sêl heb ei dorri i hyrwyddwr/deiliad trwydded.

b) **RHAID*** i flychau casglu gael eu hagor a'r cynnwys ei gyfrif ym mhresenoldeb hyrwyddwr y casgliad a dau unigolyn arall a ddylai gyfrif a chofnodi'r swm a dderbyniwyd cyn ei roi yn y banc.

c) **RHAID*** cadw cofnod o'r enillion a gasglwyd gan bob casglwr a manylion y deunyddiau casglu a ddychwelwyd.

L6.4.9 Gwybodaeth i'w rhoi i'r PSNI

a) **RHAID*** i ffurflen gael ei rhoi i PSNI o fewn dau fis o'r casgliad a datganiad i'r uwch heddwas a roddodd y drwydded gyda thalebau ategol wedi'u hardystio gan ddau swyddog o'r sefydliad a'u harchwilio'n briodol gan ddangos y swm a dderbyniwyd a'r costau a gafwyd.

L6.5 Casgliadau o dŷ i dŷ - Cymru a Lloegr

L6.5.1 Ffynonellau cyfraith

- Deddf Casgliadau o Dŷ i Dŷ (1939)
- Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ (1947)

L6.5.2 Diffiniadau

Ystyr "casgliadau o dŷ i dŷ" yw casglu arian neu eiddo arall, boed i'w ystyried neu beidio, trwy gyfrwng mynd o dŷ i dŷ (neu o fusnes i fusnes).

L6.5.3 Trwyddedau

a) **RHAID** i gasgliad at 'ddiben elusennol' (sy'n cynnwys dibenion llesiannol a dyngarol) **BEIDIO*** â chael ei gynnal o dŷ i dŷ heb drwydded wedi'i rhoi gan yr awdurdod lleol y bydd y cyfan neu unrhyw ran o'r casgliad yn digwydd yn ei

ardal. Os yw'r casgliad ar gyfer dibenion lleol ac i'w gynnal dros gyfnod byr, gall yr awdurdod lleol roi tystysgrif yn eithrio'r casgliad rhag yr angen i gael trwydded.

b) **RHAID*** gwneud cais am drwyddedau o leiaf mis cyn dyddiad y casgliad.

c) Gall trwyddedau gael eu gwrthod neu eu diddymu:

- Os yw'r cyfanswm y gwneir cais amdano ar gyfer dibenion elusennol yn cael ei ystyried yn annigonol mewn perthynas â'r swm tebygol a gesglir.
- Mae tâl (unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r casgliad) yn cael ei ystyried yn ormodol o'i gymharu ag enillion tebygol y casgliad.
- Mae'r casgliad yn groes i adran 3 o Ddeddf Crwydradaeth 1824.
- Mae'r ceisydd/deiliad y drwydded heb ei ystyried yn 'unigolyn addas a phriodol' i drefnu casgliad.
- Mae'r ceisydd/deiliad y drwydded heb arfer 'diwydrwydd dyladwy' i sicrhau bod pob casglwr yn 'unigolyn addas a phriodol' i gasglu.
- nid yw bathodynnau/tystysgrifau awdurdod priodol yn cael eu cofnodi, eu rhoi a'u dychwelyd yn briodol ar ôl y casgliad.
- Nid yw digon o wybodaeth yn cael ei rhoi i'r corff trwyddedu ynghylch unrhyw un o'r materion a restrir uchod.

d) Os yw cais am drwydded yn cael ei wrthod neu ei ddiddymu **RHAID*** i'r awdurdod trwyddedu roi hysbysiad ysgrifenedig yn esbonio'r sefyllfa.

e) Mae apeliadau yn erbyn penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet a **RHAID*** iddo gael ei wneud o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.

L6.5.4 Gorchmynion Esemptiad Cenedlaethol

- Nid oes rhaid i ddeiliaid Gorchmynion Esemptiad Cenedlaethol wneud cais am drwyddedau bob tro y maent yn dymuno cynnal casgliadau o dŷ i dŷ.
- Yn gyffredinol gall sefydliadau gael Gorchmynion Esemptiad Cenedlaethol os ydynt wedi cael trwyddedau casglu o dŷ i dŷ mewn o leiaf 70-100 o ardaloedd trwyddedu'r awdurdod lleol am y ddwy flynedd flaenorol. Ar hyn o bryd mae 43 o ddeiliaid gorchymyn esemptiad cenedlaethol (unigolion a enwir sy'n gweithio ar gyfer sefydliadau elusennol).
- Mae rhai rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddeiliaid Gorchymyn Esemptiad Cenedlaethol ond mae'n arfer da cymeradwy i gydgysylltu â'r awdurdodau lleol am ddyddiadau a lleoliadau casgliadau a dilyn gofynion arfer da eraill ynghylch cynnal casgliad.

L6.5.5 Oedran y Casglwyr

Ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ yr isafswm oedran ar gyfer casglwr yw 16.

L6.5.6 Dewis Casglwyr

a) **RHAID*** i hyrwyddwr casgliad gynnal diwydrwydd dyladwy i wirio bod casglwyr yn 'unigolion addas a phriodol' i gasglu.

L6.5.7 Hyfforddi Casglwyr

a) **RHAID*** i'r hyrwyddwr sicrhau hefyd bod casglwyr yn cydymffurfio â Rheoliadau Casgliadau o Dŷ i Dŷ (1947).

L6.5.8 Talu Casglwyr

1. Yng Nghymru a Lloegr, gall casglwyr gael eu talu i gynnal casgliad o dŷ i dŷ.

L6.5.9 Deunyddiau Casglu

a) **RHAID*** i bob casglwr gael:

- bathodyn casglwr - gweler isod am fanylion - sy'n **RHAID*** cael ei wisgo mewn lle amlwg;
- tystysgrif awdurdod - gweler isod; a
- blwch casglu wedi'i selio neu lyfr derbynebion wedi'i farcio'n glir gyda diben y casgliad a rhif adnabod.

b) **RHAID*** i fathodyn casglwr:

- ddangos enw cofrestredig y sefydliadau a fydd yn elwa o'r casgliad wedi'i argraffu arno, ynghyd ag unrhyw enw arall y mae'n ei ddefnyddio;
- dangos rhif elusen gofrestredig, os yw'n gymwys; a
- chael ei lofnodi gan y casglwr pan gaiff ei dderbyn.

c) **RHAID*** i dystysgrif awdurdod y casglwr ddangos:

- i ba bwrpas y mae'r casgliad yn cael ei gynnal
- enw a chyfeiriad y casglwr;

- lle'r casgliad;
- y cyfnod pan fydd y casglwr wedi'i awdurdodi i gasglu; a
- llofnod y casglwr a hyrwyddwr y casgliad.

d) **RHAID*** i fathodynnau a thystysgrifau awdurdod yng Nghymru a Lloegr fod yn rhai safonol, wedi'u cyflenwi gan HMSO neu, ar gyfer deiliaid Gorchymyn Esemptiad, ddyluniad wedi'i gymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet.

e) **RHAID*** i amlenni casglu gael eu defnyddio gan ddeiliaid Gorchymyn Esemptiad Cenedlaethol sydd wedi cael caniatâd ymlaen llaw gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, ac mae rheolau penodol yn ar gyfer casgliadau mewn amlenni.

f) Yn ogystal, os yw'r casgliad ar gyfer elusen gofrestredig gydag incwm dros £10,000, **RHAID*** i'r holl ddeunyddiau a brintiwyd nodi bod yr elusen yn elusen gofrestredig.

L6.5.10 Datganiadau Deisyfu

Cyflwynodd Deddf Elusennau 2006 rwymedigaeth ar rai pobl sy'n codi arian ar gyfer elusennau na fyddant, er eu bod nhw'n cael eu talu, wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o godwr arian proffesiynol. Y pedair egwyddor yw:

a) Unigolion sy'n cael eu talu i gynnal casgliad elusennol cyhoeddus (ac eithrio unrhyw un sy'n derbyn £5 neu lai y dydd neu £300 neu lai y flwyddyn). **RHAID*** i unigolion o'r fath wneud datganiad sy'n cyfateb i ddatganiad adran 60 o Ddeddf Elusennau 1992.

b) Gweithwyr, swyddogion ac ymddiriedolwyr cyflogedig sy'n cynnal casgliad elusennol cyhoeddus (yn destun i'r un eithriad 'tâl is' a nodir uchod).

c) Os yw'r unigolion hyn yn gwneud deisyfiadau am rodd ar gyfer elusen arbennig mae'n **RHAID*** iddynt wneud datganiad sy'n nodi:

- enw neu enwau'r sefydliadau a fydd yn elwa ac os yw'n fwy nag un, pa gyfran y byddant yn elwa;
- y ffaith eu bod nhw'n swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr sefydliad; a'r
- ffaith eu bod yn cael eu talu fel swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr, neu am weithredu fel casglwr. Nid oes rhaid iddynt ddatgan swm eu tâl.

d) Os yw'r unigolion hyn yn gwneud deisyfiad at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol (yn hytrach nag elusen benodol a enwir), mae'n **RHAID*** iddynt wneud datganiad tebyg i nodi eu bod yn cael eu talu ar gyfer y dibenion cyffredinol hynny.

L6.5.11 Cynnal Casgliad

a) **RHAID** i gasglwyr **BEIDIO*** ag "erfyn ar unrhyw unigolyn fel ei fod yn ei gythruddo", neu aros wrth unrhyw dŷ, neu wrth ddrws unrhyw dŷ os gofynnwyd iddynt adael.

L6.5.12 Delio ag enillion rhodd arian parod

a) Os yw blwch casglu yn cael ei ddefnyddio, **RHAID*** i roddion gael eu rhoi yn y blwch hwnnw.

b) Os na fydd blwch casglu yn cael ei ddefnyddio, **RHAID*** i gasglwyr gofnodi rhoddion ar unwaith mewn llyfr derbynion a rhoi derbynneb wedi'i llofnodi i'r rhoddwr.

c) **RHAID*** i'r holl enillion o bob casgliad gael eu hanfon i drefnwr y casgliad ynghyd â bathodyn y casglwr, tystysgrif awdurdod ac unrhyw ddeunyddiau casglu heb eu defnyddio cyn gynted â phosibl. **RHAID*** i'r sêl ar y blychau casglu aros yn eu lle a rhaid peidio ag agor amlenni.

d) Pan fydd blwch casglu neu'r llyfr derbynebion yn cael ei dderbyn, **RHAID*** i'r enillion gael eu cyfrif neu eu gwirio ym mhresenoldeb hyrwyddwr ac unigolyn cyfrifol arall neu swyddog banc.

e) **RHAID*** i gofnod ardystiedig gael ei gadw o'r enillion a gasglwyd gan gasglwr o'r fath, y swm a gasglwyd ym mhob blwch a manylion y deunyddiau casglu a ddychwelwyd e.e. yn achos casgliadau mewn amlenni, nifer yr amlenni sy'n cynnwys arian parod sy'n cael eu dychwelyd gan bob casglwr a chyfanswm yr arian ynddynt.

L6.5.13 Gwybodaeth i'w rhoi i'r awdurdod trwyddedu

a) **RHAID*** anfon cyfrifon i'r awdurdod trwyddedu o fewn mis o ddyddiad terfyn y drwydded.

b) Os yw Gorchymyn Esemptiad Cenedlaethol wedi cael ei wneud, **RHAID*** anfon cyfrifon bob blwyddyn i Swyddfa'r Cabinet.

L6.6 Casgliadau o Dŷ i Dŷ - yr Alban

L6.6.1 Ffynonellau Cyfraith

Deddf Llywodraeth Ddinesig (yr Alban) 1982

Rheoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus (yr Alban) 1984

L6.6.2 Diffiniadau

Ystyr "Casgliad o Dŷ i Dŷ" yw casgliad sy'n cael ei wneud trwy fynd o dŷ i dŷ a gofyn am gyfraniadau gan y bobl yn y "tŷ" hwnnw, gan gynnwys lle busnes. Ystyr "Lle Cyhoeddus" yw unrhyw le (boed yn dramwyfa neu beidio) lle mae gan y cyhoedd fynediad anghyfyngedig ac mae'n cynnwys pyrth neu fynedfeydd eiddo sy'n ffinio unrhyw le o'r fath, unrhyw dramwyfa gyffredin, clos, cwrt, grisiau, gardd neu iard sy'n ymwneud ag unrhyw denement neu grŵp o dai ym mherchnogaeth ar wahân.

Bydd y diffiniad o le cyhoeddus yn newid yn yr Alban os a phryd y gweithredir darpariaethau Casgliadau Llesiannol Cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005.

L6.6.3 Deiliaid Esempt

a) Yn yr Alban, gall unrhyw un sy'n trefnu casgliadau dros y cyfan o'r Alban neu ran sylweddol ohoni wneud cais i Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) i fod yn Hyrwyddwr Esempt. Ar hyn o bryd mae 16 o hyrwyddwyr esempt.

b) Yn yr Alban **RHAID*** i Hyrwyddwyr Esempt adrodd yn flynyddol i OSCR.

c) **RHAID*** i'r adroddiad hwn gynnwys adroddiad wedi'i archwilio o'r casgliadau a wnaed (gan gynnwys dadansoddiad fesul awdurdod lleol a manylion am y treuliau a gododd) yn ogystal â datganiad wedi'i lofnodi gan y trefnwr a datganiad yr archwiliwr.

d) **RHAID*** iddynt gyhoeddi hysbysiad yn crynhoi'r adroddiad o'r casgliad wedi'i archwilio o gasgliadau mewn papur newydd sy'n cael ei gylchredeg yn genedlaethol yn yr Alban o fewn mis o gyflwyno eu cofnodion i'r Rheoleiddiwr.

L6.6.4 Caniatâd

a) Nid oes angen trwyddedau ar gyfer casglu nwyddau.

b) Oni bai ei fod yn hyrwyddwr esempt, **RHAID*** i gais ysgrifenedig gael ei wneud o leiaf mis ymlaen llaw (neu o fewn cyfnod arall fel y pennir gan yr awdurdod lleol).

L6.5.5 Oedran y Casglwyr

Yr isafswm oedran ar gyfer casglwr sy'n cymryd rhan mewn casgliad o dŷ i dŷ yw 16 oed.

L6.6.6 Deunyddiau Casglu

a) **RHAID*** i ddeunyddiau elusennau gynnwys enw cofrestredig yr elusen, unrhyw enw arall y mae'n cael ei alw'n gyffredin, y ffaith ei bod yn elusen (os nad yw ei henw eisoes yn cynnwys cyfeiriad at statws elusennol) a'i rhif elusen gofrestredig (sy'n dechrau gyda SC0).

b) **RHAID*** i'r holl ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r casgliad sy'n cael eu rhoi a'u dychwelyd gael eu cofnodi

c) **RHAID*** i fathodyn casglwr ddangos enw cofrestredig y sefydliad a fydd yn elwa o'r casgliad wedi'i argraffu arno, ynghyd ag unrhyw enw arall y mae'n ei ddefnyddio, dangos y rhif elusen gofrestredig, os yw'n gymwys, a chyfeiriad at statws elusennol y sefydliad oni bai bod hwn wedi'i gynnwys eisoes yn ei enw;

d) **RHAID*** i dystysgrif awdurdod y casglwr ddangos enw cofrestredig a chyfeiriad y cronfeydd neu'r sefydliadau a fydd yn cael budd o'r casgliad, yn ogystal ag unrhyw enw arall y caiff ei alw, rhif elusen gofrestredig, os yw'n gymwys, a chyfeirio at statws elusennol y sefydliad oni bai bod hyn eisoes wedi'i gynnwys yn ei enw); enw a chyfeiriad y casglwr; lleoliadau'r casgliad, y cyfnod pan fydd y casglwr wedi'i awdurdodi i gasglu, llofnod y casglwr a hyrwyddwr y casgliad. Gall asiant yr hyrwyddwr lofnodi ar ei ran ar yr amod fod enw a chyfeiriad yr asiant yn cael eu rhoi ac enw a chyfeiriad y trefnwr.

e) Nid oes ffurf ragnodedig ar gyfer bathodynnau a thystysgrif awdurdod ond **RHAID*** iddynt gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth, a ddisgrifir uchod.

f) **RHAID*** i drefnwr casgliad gofnodi enw a chyfeiriad pob casglwr yn ogystal â nifer yr amlenni casglu a roddwyd iddo, neu'r rhif a nodwyd ar y blwch casglu a roddir i bob casglwr.

L6.6.7 Datganiadau Deisyfu

a) Yn yr Alban, mae rheolau ynghylch datganiadau deisyfu yn gymwys a **RHAID*** eu dilyn gan godwyr arian proffesiynol sy'n gwneud deisyfiadau, cyfranogwyr masnachol sy'n gwneud cynrychiolaethau a Chodwyr Arian Llesiannol (heblaw gwirfoddolwyr) sy'n ymgymryd â chodi arian llesiannol.

L6.6.8 Ymddygiad Casglwyr

a) **RHAID*** i godwyr arian sy'n cynnal casgliadau trwyddedig ddangos bathodynnau adnabod.

b) **RHAID*** i gasglwr dderbyn rhoddion sy'n cael eu gwneud mewn amlenni wedi'u selio yn unig.

c) Wrth ymgymryd â chasgliad amlenni yn yr Alban, **RHAID*** i gasglwr dderbyn rhoddion sy'n cael eu gwneud mewn amlenni wedi'u selio yn unig. Wrth ymgymryd â chasgliad trwy gyfrwng blwch casglu wedi'i selio, **RHAID*** i'r casglwr dderbyn rhoddion sy'n cael eu gwneud gan y rhoddwr yn eu rhoi mewn blwch casglu.

L6.6.9 Enillion Casgliadau

a) **RHAID*** i ddeunyddiau casglu gael eu hagor a'r cynnwys ei gyfrif a'i dystio ym mhresenoldeb hyrwyddwr y casgliad a rhywun cyfrifol arall sydd heb fod yn berthynas iddo, neu gellir eu cludo heb eu hagor i fanc.

b) **RHAID*** i'r holl enillion o bob casgliad gael eu rhoi i drefnwr y casgliad heb eu hagor, ynghyd â bathodyn y casglwr a'r dystysgrif awdurdod ac unrhyw ddeunyddiau casglu heb eu defnyddio cyn gynted ag y mae'n rhoi'r gorau i weithredu fel casglwr (h.y. ar ddiwedd y casgliad) neu pan fydd y trefnwr yn gofyn amdanynt.

c) **RHAID*** i flychau/amlenni casglu wedi'u selio gael eu hagor dim ond gan y trefnwr neu ei asiant ym mhresenoldeb person cyfrifol annibynnol, neu gan swyddog banc (ar ôl iddynt gael eu cyflwyno heb eu hagor i'r banc).

d) **RHAID*** i gofnod gael ei gadw o bob blwch casglu wedi'i rifo sy'n cael ei ddychwelyd yn ogystal â'r enillion ym mlwch casglu pob casglwr (oni bai eu bod wedi'u hagor gan swyddog banc).

e) Yn achos casgliad amlen, **RHAID*** cadw cofnod o nifer yr amlenni a ddosbarthwyd ac a ddychwelwyd gan bob casglwr, a chyfanswm yr arian ynddynt.

L6.6.10 Gwybodaeth i'w chyflwyno ar ôl y Casgliad

a) **RHAID*** i drefnwyr casgliadau gyflwyno cyfrifon ar gyfer y casgliad i'r awdurdod lleol perthnasol o fewn mis o'r casgliad, a **RHAID*** i'r cyfrifon fodloni gofynion y Rheoliadau. (Mae gofynion gwahanol yn gymwys i hyrwyddwyr esempt, sy'n gallu cyflwyno cyfrifon blynyddol). **RHAID*** i'r derbyniadau a phapurau sy'n gysylltiedig â'r casgliad gael eu cadw am ddwy flynedd ar ôl cyflwyno'r cyfrifon.

b) **RHAID** i drefniadau gael eu gwneud i dderbyn enillion casgliad unrhyw gasgliad trwyddedig a'r holl ddeunyddiau a ddefnyddiwyd a heb eu defnyddio sy'n gysylltiedig â hynny gan gynnwys y bathodyn casglu a'r dystysgrif awdurdod yn y man penodedig wedi'i awdurdodi gan drefnwr y casgliad.

c) **RHAID*** cadw cofnod o'r enillion a gasglwyd gan bob casglwr a manylion y deunyddiau casglu a ddychwelwyd.

d) **RHAID*** i drefnwyr y casgliadau gyhoeddi crynodeb o'r casgliad a'r cyfrifon o fewn mis o gyflwyno'r cyfrifon, oni bai bod y casgliad wedi cael ei gynnal mewn un ardal awdurdod lleol ac mae'r awdurdod lleol yn ildio'r gofyniad hwn. **RHAID*** i'r crynodeb hwn gynnwys gwybodaeth benodol a chael ei gyhoeddi mewn un neu ragor o bapurau newydd a gylchredir yn yr ardal y cafodd y casgliad ei drwyddedu ar ei gyfer.

e) **RHAID*** i hyrwyddwyr esempt gyhoeddi'r crynodeb mewn papur newydd sy'n cael ei gylchredeg trwy'r Alban gyfan.

L6.7 Casgliadau o Dŷ i Dŷ - Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, os yw'r casgliad yn cwmpasu'r cyfan o Ogledd Iwerddon gellir cael gorchymyn esemptiad er mwyn osgoi'r anghyfleustra o wneud ceisiadau lluosog i'r Gwasanaeth Heddlu ar gyfer Gogledd Iwerddon ("PSNI"). Dylid cyfeirio ceisiadau i Gangen Elusennau yr Adran Datblygu Cymdeithasol.

a) **RHAID*** i'r sefydliadau roi rhybudd rhesymol i PSNI ynghylch pryd y bwriedir gweithredu ar y gorchymyn esemptiad oherwydd os na wneir hynny, gall fod gorgyffwrdd os yw PSNI yn rhoi hawl i sefydliad arall godi arian yno.

b) **RHAID*** i ddeiliaid Gorchymyn Esemptiad yng Ngogledd Iwerddon ddarparu cyfrifon blynyddol i'r DSD wedi'u hardystio gan brif hyrwyddwr casgliadau a hefyd wedi'u hardystio gan unigolyn cyfrifol annibynnol fel archwiliwr ariannol.

c) **RHAID*** i brif hyrwyddwr gael ei benodi a rhaid i'r gorchymyn esemptiad gael ei roi iddo. Ni all ddirprwyo ei reol ac os yw'n gwneud hynny mae'r gorchymyn esemptiad yn annilys yn awtomatig.

d) **RHAID*** i'r sefydliad roi o leiaf chwe wythnos o rybudd i PSNI cyn defnyddio ei orchymyn esemptiad er mwyn osgoi elusen leol rhag ceisio caniatâd i gasglu a darganfod fod deiliaid gorchymyn esemptiad yn casglu yn yr un ardal heb roi gwybod i'r PSNI.

e) Mae'n ofynnol i hyrwyddwyr sicrhau bod casglwyr yn unigolion 'addas a phriodol' a'u bod yn cael tystysgrif awdurdod a bathodyn.

f) **RHAID*** i ddeunyddiau ddangos enw a chyfeiriad yr elusen, enw a chyfeiriad y casglwr, lleoliad y casgliad a dangos llofnod y casglwr a hyrwyddwr y casgliad.

g) **RHAID*** i fathodynnau:

- fodloni'r manylebau a nodir yn Neddf 1952 a dangos pwrpas y casgliad, enw'r elusen a chyfeirnod HMRC;
- cael ei lofnodi gan y casglwr; a
- chael eu dychwelyd pan fydd y casgliad wedi'i gwblhau.

h) **RHAID*** i dystysgrifau ddangos enw a chyfeiriad yr elusen, enw a chyfeiriad y casglwr, lleoliad y casgliad a dangos llofnod y casglwr a hyrwyddwr y casgliad.

i) **RHAID*** i gasglwyr gael blychau casglu neu lyfrau derbynebion wedi'u marcio â rhif unigryw.

j) Os yw'r llyfr derbynebion yn cael eu rhoi, **RHAID*** iddynt gael cofnodion o swm sy'n hafal i gyfanswm y cyfraniadau a nodwyd ynddynt.

L7.0 Derbyn a Gwrthod Rhoddion

L7.1 Oedi wrth dderbyn rhodd

Weithiau bydd elusen yn dymuno gwrthod rhodd, neu oedi wrth dderbyn rhodd, er mwyn darbwyllo'r rhoddwr i wneud y rhodd mewn ffordd fwy treth-effeithlon (e.e. trwy Gymorth Rhodd). Gall elusen benderfynu gwneud hyn ar yr amod bod yr ymddiriedolwyr yn hollol ymwybodol o'r risg y gallai'r rhoddwr ddewis peidio â gwneud y rhodd, ac ar yr amod bod yr elusen yn esbonio'r manteision treth yn gywir i'r rhoddwr.

L7.2 Cadw cofnodion

Os yw'r ymddiriedolwyr (neu eu dirprwyon) yn penderfynu gwrthod rhodd, **RHAID** cadw cofnod gofalus o'u penderfyniad, a'r rhesymau drosto. Mae'n arfer da i elusennau fabwysiadu polisi ynghylch yr amgylchiadau pan ellid gwrthod rhoddion.

L7.3 Y gofynion yng Nghymru a Lloegr

L7.3.1 Comisiwn Elusennau

Os yw'r ymddiriedolwyr yn pryderu ynghylch gwrthod rhodd arbennig neu beidio, efallai yr hoffent geisio barn y Comisiwn Elusennau o dan adran 110 o Ddeddf Elusennau 2011 (pŵer i roi cyngor) neu orchymyn gan y Comisiwn Elusennau yn sancsiynu eu penderfyniad o dan adran 105 o Ddeddf Elusennau 2011 (pŵer i awdurdodi deliadau ag eiddo elusen ac ati).

Mae'r amgylchiadau pan allai cyngor neu orchymyn fod o fudd yn cynnwys: pan na fydd yn glir yn syth beth yw 'lles gorau'r elusen' o ran y rhodd arfaethedig, mae symiau mawr o arian neu eiddo yn cael eu hystyried; mae rheswm gan yr ymddiriedolwyr dros gredu y gallai penderfyniad a gafodd ei wneud ganddynt gael ei herio wedi hynny yn y llysoedd; ac mae'r ymddiriedolwyr am ddefnyddio 'awdurdod' cyngor y Comisiwn Elusennau neu orchymyn i leddfu yn erbyn y bygythiad o gyhoeddusrwydd negyddol a achoswyd gan wrthod rhodd.

Gweler hefyd yr adran ar daliadau ex gratia isod.

L7.3.2 Rhwymedigaeth gyfreithiol i ddychwelyd rhodd

Gall fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar elusen i ddychwelyd rhodd. Er enghraifft, gall yr amodau sydd wedi'u hatodi i'r rhodd ei gwneud hi'n ofynnol i ddychwelyd y rhodd mewn rhai amgylchiadau.

Mae un sefyllfa lle y gallai hyn ddigwydd yn cael ei alw'n apêl aflwyddiannus. Gall hyn ddigwydd pan fydd apêl am bwrpas arbennig yn methu â chodi digon o arian i gyflawni'r diben hwnnw; a bod yn fanwl-gywir gall fod hawl gan y rhoddwyr i gael ad-daliad.

Gellir achub y blaen os yw geiriad llenyddiaeth yr apêl yn ei gwneud hi'n glir y caiff y cronfeydd eu defnyddio at ddibenion cyffredinol yr elusen yn yr amgylchiadau hyn. Yn gyffredinol ni fydd hawl gan y rhoddwr i gael ad-daliad yn yr amgylchiadau hyn.

Os oes hawl, a bod yn fanwl-gywir, gan y rhoddwr i gael ad-daliad, gall darpariaeth Deddf Elusennau 2011 helpu. Mae Adran 65 o Ddeddf Elusennau 2011 yn gymwys os yw rhoddwyr mewn apêl yn cael gwybod os yw'r apêl yn methu, caiff rhoddion eu defnyddio at ddibenion elusennol cyffredinol, oni bai bod y rhoddwr yn gwneud datganiad ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw y byddent yn hoffi cael cyfle i hawlio eu rhodd yn ôl yn yr amgylchiadau hyn. Os yw'r apêl yn methu, **RHAID** i'r ymddiriedolwyr gymryd camau arbennig i gysylltu â'r rhoddwyr sydd wedi gwneud y datganiadau yna gellir gofyn i'r Comisiwn Elusennau wneud cynllun o dan Adran 63 o Ddeddf Elusennau 2011 i ddefnyddio'r cronfeydd a roddwyd at ddibenion elusennol gwahanol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghyfarwyddyd gweithredol y Comisiwn Elusennau OG53: Apeliadau Elusennol - Osgoi a Delio â Methiant. Yn aml iawn bydd yn haws sicrhau bod llenyddiaeth yr apêl yn pennu'n syml y caiff y cronfeydd eu defnyddio at ddibenion cyffredinol yr elusen os yw'r apêl yn methu, yn hytrach na dibynnu ar y weithdrefn adran 65 mwy cymhleth, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiwn Elusennau ymyrryd.

Os nad yw Adran 65 yn gymwys, mae'n bosib y gellir gofyn i'r Comisiwn Elusennau arfer ei bwerau o hyd o dan Adran 63 i wneud cynllun i'r preswyl y dylid defnyddio'r eiddo ar gyfer dibenion elusennol gwahanol. Mae Adran 63 yn caniatáu i'r Comisiwn wneud cynllun mewn amgylchiadau arbennig, gan gynnwys pan na ellir adnabod y rhoddwr neu ni ellir dod o hyd i'r rhoddwr ar ôl i hysbysebion ac ymchwiliadau arbennig gael eu gwneud. O dan Adran 64 gall rhai rhoddion gael eu trin fel rhai sy'n eiddo'r rhoddwyr na ellir eu hadnabod, gan

gynnwys arian mewn blychau casglu a chronfeydd y mae'r Comisiwn Elusennau wedi penderfynu y dylid eu trin fel rhai sy'n eiddo rhoddwyr na ellir eu hadnabod, oherwydd byddai'r gost o geisio olrhain y rhoddwyr yn anghymesur neu oherwydd byddai amgylchiadau (er enghraifft treigl amser) yn golygu ei bod hi'n afresymol i'r rhoddwyr ddisgwyl i'w rhoddion gael eu dychwelyd.

Gall fod cyfle hefyd i fanteisio ar bwerau cyffredinol y Comisiwn i wneud cynllun os yw rhodd elusennol yn methu.

Enghraifft arall o achos lle y gall fod rhwymedigaeth gyfreithiol i ddychwelyd rhodd yw o dan Adran 61, Deddf Elusennau 1992, Rhan II, sy'n gymwys yn Lloegr a Chymru ac sy'n darparu ar gyfer dychwelyd rhoddion o fwy na £100 a wnaed gyda cherdyn credyd/debyd o fewn cyfnod 'oeri' o saith diwrnod. **RHAID** i'r rhodd fod wedi cael ei gwneud mewn ymateb i apêl gan godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol naill ai yn ystod sioe radio neu deledu neu gael ei gwneud fel arall ar lafar (yn aml trwy siarad yn uniongyrchol i, neu ym mhresenoldeb, yr unigolyn y mae'r apêl wedi'i chyfeirio ato). DS: Diweddarwyd Adran 61 o Ddeddf Elusennau 1992 yn 1999 i osod trothwy cymwys ar gyfer dychwelyd rhoddion o £100 yn hytrach na £50.

L7.3.3 Rhwymedigaeth foesol i ddychwelyd rhodd - taliad ex gratia

Gall sefyllfaoedd godi lle nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol gan elusen i ddychwelyd rhodd sydd wedi cael ei gwneud, ond mae'r ymddiriedolwyr yn teimlo bod rhwymedigaeth foesol i'w gwneud.

Gall y Comisiwn Elusennau, ddefnyddio ei bwerau o dan adran 106 o Ddeddf Elusennau 2011 i awdurdodi elusen i ad-dalu rhodd yn yr amgylchiadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghanllaw'r Comisiwn Elusennau CC7 - Taliadau Ex Gratia gan Elusennau ac yng nghyfarwyddyd gweithredol y Comisiwn Elusennau OG 539 Taliadau Ex Gratia gan Elusennau.

L7.4 Gofynion yn yr Alban

Er y gall elusennau yng Nghymru a Lloegr geisio gorchymyn gan y Comisiwn Elusennau i awdurdodi'r ad-daliad o rodd, nid oes unrhyw weithdrefn debyg yn yr Alban. Dylai ymddiriedolwyr elusennau a reolir gan OSCR geisio cyngor cyfreithiol proffesiynol os ydynt yn bryderus am rodd arbennig er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol wrth ddewis derbyn neu wrthod y rhodd.

Os yw'n glir bod gweithgareddau'r rhodd yn uniongyrchol groes i amcanion yr elusen, polisïau cytunedig yr elusen, neu i fuddiolwyr yr elusen, gall yr ymddiriedolwyr wrthod y rhodd er budd yr elusen.

Os yw'r darpar roddwr yn rhywun neu'n gwmni nad yw eu gweithgareddau yn uniongyrchol gysylltiedig ag amcanion elusennol yr elusen, ond mae'r elusen er hynny am osgoi cysylltiad â'r rhodd, dylid bod yn ofalus iawn wrth ddod i benderfyniad.

Os gellir dangos y bydd y gost i'r elusen o dderbyn y rhodd yn fwy na gwerth y rhodd ei hun, gall a dylai'r ymddiriedolwyr (wrth hyrwyddo buddiannau gorau'r elusen) wrthod y rhodd.

a) Os ydynt yn gwrthod y rhodd, **RHAID*** i'r ymddiriedolwyr allu dangos y ffaith diriaethol bod sail resymol ganddynt dros gredu nad yw er lles yr elusen i dderbyn y rhodd, fel arfer trwy ddangos bod achos ganddynt dros gredu y bydd derbyn y rhodd ei hun yn arwain yn uniongyrchol at ddirywiad net yn y sylfaen asedau, cymorth neu enw da'r elusen, neu'n achosi niwed i'w buddiolwyr.

Os yw'r cynnig o gymorth yn dibynnu ar gyflawni rhai amodau a roddir ar yr elusen, mae hawl gan yr ymddiriedolwyr i wrthod y cymorth hwnnw. Gallai achosion o'r fath fodoli:

- os oes unrhyw amod wedi'i gysylltu â'r cymorth, ynddo'i hun, yn groes i amcanion yr elusen
- os yw unrhyw amod sy'n gysylltiedig â'r cymorth yn cael ei ystyried yn afresymol mewn perthynas â natur y cymorth o ran ei faint neu ei effaith ar waith yr elusen
- os bydd amodau yn gysylltiedig â'r cymorth yn gwyro'r elusen o ddilyn ei hamcanion, polisïau neu flaenoriaethau gwaith cyfredol o ganlyniad angenrheidiol i gyflawni'r amodau yn unig
- os yw'r amodau yn gysylltiedig â'r cymorth yn clymu'r arian a/neu'r eiddo a gynigir i weithgaredd penodol, ac nid yw'r gweithgaredd penodol hwnnw yn:
    - i) elusennol ei natur
    - ii) o fewn cwmpas camau gweithredu cyfreithlon wedi'u caniatáu gan gyfansoddiad yr elusen sy'n derbyn er mwyn cyflawni ei nodau elusennol
    - iii) mae modd i'r elusen sy'n derbyn ei gyflawni yn ymarferol

Gall ystyriaethau ymarferol olygu bod rhodd sy'n dderbyniol fel arall yn cael ei gwrthod. Gallai achosion o'r fath fodoli:

- os yw'r cymorth wedi'i glymu i brosiect neu weithgaredd arbennig, gan adlewyrchu amcanion yr elusen yr un pryd, yn anymarferol, yn wynebu sefyllfa bresennol y sefydliad. Enghraifft o achos o'r fath yw lle mae'r cymorth yn cael ei gynnig i brynu asedau cyfalaf (adeilad neu dir) ond nid oes gan yr elusen, er bod angen yr ased cyfalaf arno, unrhyw adnoddau i gynnal y costau gweithredu sy'n gysylltiedig ag ef
- os yw'r cymorth wedi'i gyflwyno mewn ffordd anghonfensiynol ac mae'r gost o brosesu'r rhodd yn fwy na gwerth y rhodd. Enghraifft o achos o'r fath yw lle mae elusen yn cael cynnig berfa llawn ceiniogau. Gellid dadlau y bydd y costau sy'n gysylltiedig â chyfrif a phrosesu'r ceiniogau yn fwy na gwerth y rhodd ei hun.
- os yw'r cymorth yn cynnwys nwyddau, gwasanaethau neu eiddo na alla yr elusen ei ddefnyddio, ei drosi neu ei werthu'n gyfreithlon i gefnogi ei hamcanion elusennol yn uniongyrchol

Os yw rhodd wedi cael ei derbyn ond mae'r amodau i'w gweld yn amhriodol wedi hynny neu'n anhylaw, gall yr elusen wneud cais i OSCR i ad-drefnu'r gronfa gyfyngedig a grëwyd gan y rhodd. Fodd bynnag, bydd hyn yn bosibl dim ond os nad yw'r elusen yn gallu pennu dymuniadau'r rhoddwr.

Er y gallu taliadau ex gratia i gyflawni rhwymedigaeth foesol gymhellol, ond nid rhwymedigaeth gyfreithiol gael ei gwneud yng Nghymru a Lloegr gyda chydsyniad y Comisiwn Elusennau, nid oes drefn gyfatebol yn yr Alban. Yn yr Alban, rhaid i gyfansoddiadau elusennau, o dan adran 7(4) o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 wahardd dosbarthu cronfeydd yr elusen at ddibenion anelusennol. Mae hyn, ynghyd â diffyg mecanweithiau cyfatebol yn caniatáu i OSCR awdurdodi taliadau ex-gratia, yn golygu na all elusennau a reolir gan gyfraith yr Alban ac sydd ag OSCR yn brif reoleiddiwr wneud taliadau ex gratia. Er bod hawl ganddynt geisio barn fasnachol ar faterion a gallant gytuno i gyfaddawdu gydag unigolyn neu gorff sydd â hawliad cyfreithiol dilys, ni allant wneud taliad os nad oes achos cyfreithiol dim ond ar sail tosturi neu foesoldeb.

Os yw'r rhoddwr yn gofyn am hynny, mae'r gyfraith yn darparu ar gyfer dychwelyd (yn amodol ar ddidynnu unrhyw dreuliau gweinyddol sydd wedi codi'n rhesymol) rhai rhoddion o £100 neu ragor o fewn cyfnod 'oeri' o saith diwrnod. Mae'r ddarpariaeth hon yn bodoli yn yr Alban o dan Reoliad 5 o Ddeddf Elusennau a Chodi Arian Llesiannol (yr Alban) 2009. **RHAID** i'r rhodd fod wedi

cael ei wneud mewn ymateb i apêl gan godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol a naill ai:

- cafodd yr apêl ei gwneud yn ystod sioe radio neu deledu a chafodd taliad o £100 o leiaf wneud gyda cherdyn credyd neu debyd
- cafodd y taliad ei wneud, neu cafodd cytundeb ei wneud i wneud taliad neu daliadau ar ddyddiad diweddarach gyda'r swm neu'r swm agregedig sy'n gyfanswm o £100 o leiaf, mewn ymateb i apêl a wnaed ar lafar (heblaw trwy siarad yn uniongyrchol â'r unigolyn y mae'r apêl yn codi arian ar ei gyfer, neu ym mhresenoldeb yr unigolyn hwnnw) a chafodd y taliad ei wneud gan unrhyw ddull.

L7.5 Gofynion Gogledd Iwerddon

Mae'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yn debyg i'r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr. O dan Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 gall elusen mewn perthynas â rhodd, ceisio cyngor Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon o dan Adran 46. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn awdurdodi deliadau a gweithredu ar unrhyw benderfyniadau a allai fod yn fuddiol i'r elusen - mae hyn yn dod â'r pŵer ychwanegol hefyd o allu sancsiynu eu penderfyniad.

Gall rhodd gael ei gwrthod hefyd os na all rhyw amod ynddo gael ei gyflawni - os yw'n amhosib neu'n anymarferol. Mae sawl enghraifft o hyn, ac os yw'r amod yn methu, mae'r rhodd yn cael ei dychwelyd. Fodd bynnag, mae cynsail bod gosod amod sy'n datgan bod rhaid dychwelyd arian yn negyddu'r bwriad elusennol, felly caiff ei gymhwyso cy-près.

O dan Adran 47 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 mae pŵer gan y Comisiwn i awdurdodi taliadau ex-gratia hefyd. Mae hyn yn digwydd pan fydd yr elusen yn derbyn swm mawr o arian ac er nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ganddynt i ddychwelyd y taliad, mae ymddiriedolwyr yr elusen yn teimlo bod rhwymedigaeth foesol arnynt i ddychwelyd y rhodd.

Hefyd, o dan Adran 49, mae pŵer gan y Comisiwn i roi cyngor neu gyfarwyddyd ac os dymunant, gall ymddiriedolwyr yr elusen gysylltu â'r comisiwn i geisio eu barn ar rodd arbennig. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol os ydynt yn dilyn y cyngor.

L8.0 Codwyr Arian Proffesiynol a Chytundebau

L8.1 Cwmpas

Mae'r adran hon yn gymwys i sefydliadau codi arian sy'n elusennau.

L8.2 Cymru a Lloegr - Diffiniad o Godwr Arian Proffesiynol

"Codwr arian proffesiynol" yw:

i) unrhyw un sy'n cyflawni busnes i wneud elw sy'n ymgysylltu'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn deisyfu neu gaffael fel arall arian neu eiddo arall at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol (ond mae'r elusennau eu hunain a'u his-gwmnïau masnachol heb eu cynnwys).

ii) unrhyw unigolyn sy'n deisyfu arian neu eiddo arall "am wobr" (ond unwaith eto mae elusennau eu hunain, eu gweithwyr ac ymddiriedolwyr ac is-gwmnïau masnachol elusennol wedi'u heithrio). Mae eithriadau hefyd wedi'u hanelu at sêr sy'n gwneud apeliadau teledu neu radio, codwyr arian ar gyflogau isel - h.y. y rhai nad ydynt yn derbyn mwy na £1,000 y flwyddyn neu £10 y dydd, a busnesau sydd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o gyfranogwr masnachol

L8.3 Yr Alban - Diffiniad o Godwr Arian Proffesiynol

Mae'r gyfraith berthnasol wedi'i hamlinellu yn Neddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ("Deddf 2005") a Rheoliadau Elusennau a Chodi Arian Llesiannol (yr Alban) 2009.

"Codwr arian proffesiynol" yw:

- unrhyw unigolyn (heblaw corff llesiannol neu gwmni sy'n gysylltiedig ag ef) sy'n ymgymryd â busnes codi arian - bod yn fusnes sy'n ceisio gwneud elw sydd yn ymgysylltu'n gyfan gwbl neu'n bennaf â deisyfu neu fel arall caffael arian neu addewidion o arian (ond, yn wahanol i Gymru a Lloegr, nid eiddo arall) ar gyfer un neu ragor o gyrff llesiannol arbennig, neu at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol; NEU
- unrhyw berson arall sydd, heblaw yn ystod menter codi arian a gyflawnir gan rywun o fewn y diffiniad uchod, am wobr yn deisyfu arian neu eiddo arall er budd corff llesiannol neu at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol, ond heb gynnwys:

- i) corff llesiannol neu gwmni sy'n gysylltiedig ag ef
- ii) unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â rheoli neu'r rheolaeth o gorff llesiannol neu gwmni cysylltiedig, neu sy'n weithiwr iddynt
- iii) pobl sy'n deisyfu arian ar ran corff llesiannol neu gwmni masnachol yn ystod rhaglen deledu neu radio lle mae'r corff yn ymgymryd â menter codi arian
- iv) cyfranogwyr masnachol

Yn wahanol i Gymru a Lloegr, nid yw'r rheiny sy'n gwneud casgliadau elusennol cyhoeddus wedi'u heithrio. Yn ogystal, er bod darpariaeth yn yr Alban sy'n caniatáu iddi basio rheolau de minimus tebyg i'r rhai sy'n bodoli yng Nghymru a Lloegr, nid yw wedi defnyddio'r pŵer hwn.

L8.4 Cymru a Lloegr a'r Alban: Y gofyniad i gael Cytundeb Ysgrifenedig

L8.4.1 Cytundebau Ysgrifenedig

a) Mae'n anghyfreithlon i godwr arian proffesiynol ddeisyfu arian ar gyfer sefydliad arbennig oni bai y gwneir hyn yn unol â chytundeb ysgrifenedig â'r sefydliad y mae'n codi arian ar ei gyfer. **RHAID*** i'r cytundeb fod yn ysgrifenedig a'i lofnodi gan neu ar ran y codwr arian proffesiynol a'r sefydliad y mae'n codi arian ar ei gyfer. **RHAID*** i'r cytundeb bennu:

Enwau a chyfeiriadau'r holl bartïon yn y cytundeb:

Y dyddiad pan oedd pob parti wedi llofnodi a chyfnod y cytundeb:

- unrhyw delerau sy'n delio â therfynu yn gynnar neu amrywio;
- datganiad o brif amcanion y cytundeb a'r dulliau i'w defnyddio i gyflawni'r amcanion hynny;
- y telerau ar gyfer talu ffioedd a threuliau i'r Codwr Arian Professional; ac
- os yw mwy nag un elusen dan sylw, sut caiff y cronfeydd a godir eu rhannu rhyngddynt.

L8.4.2 Cymru a Lloegr - Codwyr Arian Proffesiynol: gofynion eraill

a) **RHAID*** i godwr arian proffesiynol gydymffurfio â gofynion datgelu penodol pellach mewn perthynas ag apeliadau teledu, radio a ffôn (Adrannau 60(4)(5)(6) o Ddeddf 1992), gan gynnwys hawliau i ganslo rhodd a chael ad-daliad (Adran 61 o Ddeddf 1992).

b) **RHAID*** i godwr arian proffesiynol sydd â chytundeb yn ei le gyda sefydliad codi arian, pan ofynnir iddo wneud hynny, ddangos ei lyfrau, dogfennau a chofnodion sy'n ymwneud â'r sefydliad hwnnw ond **RHAID*** i archwiliadau, yn amodol ar esgus rhesymol, drosglwyddo cronfeydd i'r sefydliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn uchafswm o 28 diwrnod.

L8.4.3 Yr Alban - Codwyr Arian Proffesiynol: gofynion eraill

a) **RHAID*** i godwr arian proffesiynol drosglwyddo cronfeydd i'r sefydliad elusennol/corff llesiannol yn unol â'r Rheoliadau. Yn yr Alban **RHAID** i gronfeydd gael eu trosglwyddo cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn uchafswm o 28 diwrnod o'u derbyn. Nid yw cyfraith yr Alban yn caniatáu i'r partïon gytuno fel arall, ac nid yw'n gwneud eithriad os oes esgus rhesymol.

L9.0 Cyfranogwyr Masnachol a Chytundebau

L9.1 Cwmpas

Mae'r adran hon yn gymwys i sefydliadau codi arian sy'n elusennau.

L9.2 Cymru a Lloegr - Diffiniad o Gyfranogwr Masnachol

Mae'r gyfraith berthnasol wedi'i hamlinellu yn Neddf Elusennau 1992 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 1992") a Rheoliadau (Codi Arian) Sefydliadau Elusennol 1994.

Yn fras ystyr "Cyfranogwr Masnachol" yw unrhyw un sy'n ymgymryd â busnes ac yn ystod y busnes hwnnw mae'n cynrychioli y bydd yn gwneud rhoddion i'r elusen. Er enghraifft, byddai gweithgynhyrchwr sy'n hysbysebu powdr golchi gydag addewid y bydd cyfraniad yn cael ei wneud i elusen ar gyfer pob pecyn yn gyfranogwr masnachol.

Mae'r diffiniad llawn i'w weld yn Adran 58(1) o Ddeddf 1992. Mae busnesau codi arian ac is-gwmnïau masnachu elusennau heb eu cynnwys.

L9.3 Yr Alban - Diffiniad o Gyfranogwr Masnachol

Mae'r gyfraith berthnasol wedi'i hamlinellu yn Neddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ("Deddf 2005") a Rheoliadau Elusennau a Chodi Arian Llesiannol (yr Alban) 2009.

Mae "Cyfranogwr Masnachol" wedi'i ddiffinio yn adran 79 o Ddeddf 2005 fel unrhyw unigolyn sy'n ymgymryd â busnes gwneud elw heblaw busnes codi arian ac, yn ystod y busnes hwnnw, yn ymgysylltu ag unrhyw fenter harwyddol lle mae cynrychiolaeth yn cael ei wneud y bydd y cyfraniadau llesiannol yn cael eu rhoi neu eu defnyddio at fudd corff llesiannol neu (mewn estyniad o'r ddarpariaeth yng Nghymru a Lloegr) i'w defnyddio ar gyfer dibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol, ond nid yw'n cynnwys cwmni sy'n gysylltiedig â chorff llesiannol.

Er enghraifft, byddai gweithgynhyrchwr sy'n hysbysebu hancesi papur gydag addewid y bydd cyfraniad yn cael ei wneud i gefnogi plant mewn ardaloedd difreintiedig ar gyfer pob pecyn yn gyfranogwr masnachol.

L9.4 Cymru a Lloegr - Datganiad Deisyfu Cyfranogwr Masnachol

a) **RHAID*** i gyfranogwyr masnachol wneud datganiad bob tro y cynrychiolant y bydd arian yn cael ei dalu i elusen neu sefydliad sydd wedi'i sefydlu at ddibenion llesiannol neu ddyngarol.

L9.5 Yr Alban - Datganid Deisyfu Cyfranogwr Masnachol

a) Yn yr Alban, mae rheolau ynghylch datganiadau deisyfu yn gymwys a **RHAID*** eu dilyn gan godwyr arian proffesiynol sy'n gwneud deisyfiadau, cyfranogwyr masnachol sy'n gwneud cynrychiolaethau a chodwyr arian llesiannol (heblaw gwirfoddolwyr) sy'n ymgymryd â chodi arian llesiannol.

L9.6 Y gofyniad i gael cytundeb yn ei le

a) Mae'n anghyfreithlon i gyfranogwr masnachol gynrychioli fel rhan o fenter hyrwyddo y bydd yn rhoi i elusen (neu sefydliad a ffurfiwyd at ddibenion llesiannol neu ddyngarol) oni bai fod hynny'n cael ei wneud yn unol â chytundeb ysgrifenedig â'r sefydliad y mae'n codi arian ar ei gyfer. **RHAID*** i'r cytundeb fod yn ysgrifenedig a'i lofnodi gan neu ar ran y cyfranogwr masnachol a'r sefydliad y mae'n codi arian ar ei gyfer.

RHAID* i'r cytundeb bennu:

- enwau a chyfeiriadau'r holl bartïon yn y cytundeb:
- y dyddiad pan oedd pob parti wedi llofnodi a chyfnod y cytundeb:
- unrhyw delerau sy'n delio â therfynu yn gynnar neu amrywio;
- datganiad o brif amcanion y cytundeb a'r dulliau i'w defnyddio i gyflawni'r amcanion hynny;
- yr eiddo lle y bydd pob elusen yn cael budd mewn achosion pan gaiff yr arian ei rannu rhwng mwy nag un elusen;
- pa gyfran o bris y nwyddau neu wasanaethau fydd yn cael ei rhoi i'r elusen neu ba symiau fydd yn cael eu rhoi gan y cyfranogwr masnachol mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi'r nwyddau neu'r gwasanaethau;
- ac unrhyw swm y bydd y cyfranogwr masnachol yn cael ei dalu fel tâl neu dreuliau.

L9.7 Cymru a Lloegr: Gofynion Eraill

a) **RHAID*** i gyfranogwr masnachol sydd â chytundeb yn ei le gydag elusen, pan ofynnir iddo wneud hynny, ddangos ei lyfrau, dogfennau a chofnodion sy'n ymwneud â'r elusen honno ond **RHAID*** i archwiliadau, yn amodol ar esgus rhesymol, drosglwyddo cronfeydd i'r elusen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn uchafswm o 28 diwrnod.

L9.8 Yr Alban: Gofynion Eraill

a) **RHAID*** i godwr arian proffesiynol/gyfranogwr masnachol drosglwyddo cronfeydd i'r sefydliad elusennol/corff llesiannol yn unol â'r Rheoliadau. Yn yr Alban **RHAID** i gronfeydd gael eu trosglwyddo cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mewn unrhyw achos o fewn uchafswm o 28 diwrnod o'u derbyn. Nid yw cyfraith yr Alban yn caniatáu i'r partïon gytuno fel arall, ac nid yw'n gwneud eithriad os oes esgor rhesymol.

L10.0 Datganiadau Deisyfu

L10.1 Cymru a Lloegr

a) Cyflwynodd Deddf Elusennau 2006 rwymedigaeth ar rai pobl sy'n codi arian ar gyfer elusennau na fyddent, er eu bod nhw'n cael eu talu, wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad o godwr arian proffesiynol. Y pedair egwyddor yw:

- Unigolion sy'n cael eu talu i gynnal casgliad elusennol cyhoeddus (ac eithrio unrhyw un sy'n derbyn £5 neu lai y dydd neu £300 neu lai y flwyddyn).
- Gweithwyr, swyddogion ac ymddiriedolwyr (yn destun i'r un eithriad 'tâl is' a nodir uchod).

b) Os yw'r unigolion hyn yn gwneud deisyfiadau am rodd ar gyfer elusen arbennig mae'n **RHAID*** iddynt wneud datganiad sy'n nodi:

- enw neu enwau'r sefydliadau a fydd yn elwa ac os yw'n fwy nag un, pa gyfran y byddant yn elwa;
- y ffaith eu bod nhw'n swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr sefydliad; a'r
- ffaith eu bod yn cael eu talu fel swyddog, gweithiwr neu ymddiriedolwr, neu am weithredu fel casglwr. Nid oes rhaid iddynt ddatgan swm eu tâl.

c) Os yw'r unigolion hyn yn gwneud deisyfiad at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol (yn hytrach nag elusen benodol a enwir), mae'n **RHAID*** iddynt wneud datganiad tebyg i nodi eu bod yn cael eu talu ar gyfer y dibenion cyffredinol hynny.

d) **RHAID*** i godwyr arian proffesiynol wneud datganiad deisyfu bob tro y maent yn deisyfu arian neu eiddo arall ar ran elusen neu sefydliad sydd wedi'i sefydlu at ddibenion llesiannol neu ddyngarol. Dyma'r achos hyd yn oed os nad yw'r arian yn rhodd bur ond yn cael ei rhoi yn gyfnewid am rywbeth. (Adran 58 (6) (b) o Ddeddf Elusennau 1992.)

Yn achos codi arian dros y ffôn, **RHAID*** i'r datganiad priodol gael ei wneud yn ystod pob galwad ac o fewn saith diwrnod o unrhyw daliad o £100 neu ragor yn cael ei wneud gan y rhoddwr i'r codwr arian proffesiynol, **RHAID*** i'r codwr arian proffesiynol roi datganiad ysgrifenedig i'r rhoddwr, a rhoi gwybod i'r rhoddwr am ei hawl i gael ad-daliad/canslo'r rhodd. (Adran 60(5) o Ddeddf Elusennau 1992.)

e) **RHAID*** i godwyr arian proffesiynol roi'r wybodaeth ganlynol:

- enw'r sefydliadau) codi arian y maent yn galw ar ei ran(eu rhan);
- os oes mwy nag un sefydliad, pa gyfran y bydd pob un yn elwa;
- y dull a ddefnyddir i bennu tâl y codwr arian ac os gwyddys swm gwirioneddol y tâl, neu os na wyddys, amcangyfrif o'r tâl wedi'i gyfrifo mor gywir â phosibl.

f) **RHAID*** i godwr arian proffesiynol gydymffurfio â gofynion datgelu penodol pellach mewn perthynas ag apeliadau teledu, radio a ffôn (Adrannau 60(4)(5)(6) o Ddeddf Elusennau 1992), gan gynnwys hawliau i ganslo rhodd a chael ad-daliad (Adran 61 o Ddeddf Elusennau 1992).

Mae methu â gwneud datganiad cywir yn drosedd.

Cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet ddwy set o ganllawiau yn 2008 sy'n cynnwys geiriad enghreifftiol datganiadau:

- "Canllaw Codi Arian Elusennol ar Ran 2 Deddf Elusennau 1992"
- "Canllaw i weithwyr a swyddogion cyflogedig neu ymddiriedolwyr elusen y mae'n ofynnol iddynt wneud datganiad deisyfu"

I gael canllawiau mwy manwl, dylid ceisio cyngor proffesiynol.

L10.2 Yr Alban

a) Yn yr Alban, mae rheolau ynghylch datganiadau deisyfu yn gymwys a **RHAID*** eu dilyn gan godwyr arian proffesiynol sy'n gwneud deisyfiadau, cyfranogwyr masnachol sy'n gwneud cynrychiolaethau a chodwyr arian llesiannol (heblaw gwirfoddolwyr) sy'n ymgymryd â chodi arian llesiannol.

Mae codwr arian llesiannol at y diben hwn yn gorff llesiannol neu unrhyw gwmni sy'n gysylltiedig ag ef; unrhyw unigolyn sy'n ei reoli; neu unrhyw weithwyr neu asiantau naill ai o bobl o'r fath neu o'r corff llesiannol neu gwmni cysylltiedig. Ystyr codi arian llesiannol yw deisyfu neu fel arall gaffael arian neu addewidion o arian er budd cyrff llesiannol neu gwmnïau cysylltiedig neu at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol.

b) **RHAID*** i godwyr arian proffesiynol, cyfranogwyr masnachol a chodwyr arian llesiannol (heblaw gwirfoddolwyr) gael yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r corff llesiannol a fydd yn cael budd;
- os oes mwy nag un corff llesiannol, pa gyfran y bydd pob un yn elwa;
- os yw'r cronfeydd ar gyfer dibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol (yn hytrach nag ar gyfer corff llesiannol), rhaid nodi hyn a rhoi manylion ynghylch sut y caiff yr arian ei ddosbarthu; ac
- a fydd yn derbyn tâl (oni bai ei fod yn godwr arian llesiannol ac yn weithiwr neu'n asiant y corff llesiannol dan sylw neu'n gwmni sy'n gysylltiedig ag ef, ac yn ymgymryd â'r codi arian yn ysgrifenedig).

c) **RHAID*** i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol ddilyn y rheolau ychwanegol hyn hefyd:

- Os yw'r deisyfiad neu'r gynrychiolaeth yn cael ei wneud ar lafar (ond nid trwy siarad yn uniongyrchol â'r unigolyn dan sylw neu yn ei bresenoldeb) neu yn ystod rhaglen radio neu deledu, **RHAID*** esbonio'r hawl i gael ad-daliad neu i ganslo'r cytundeb sy'n bodoli o ran y Rheoliadau;
- os bydd yn derbyn tâl, **RHAID***:
    - dangos sut y caiff hyn ei bennu; a
    - nodi swm (os gwyddys, ac os na wyddys, amcangyfrif o swm) y tâl y bydd ef fel codwr arian proffesiynol yn ei gael; neu
    - nodi swm (os gwyddys, ac os na wyddys, amcangyfrif o swm) yr enillion gwerthu neu enillion y fenter hyrwyddo y bydd ef fel cyfranogwr masnachol yn ei ddefnyddio ar gyfer y corff neu'r pwrpas llesiannol, neu swm y rhodd(ion) a gaiff ei wneud.
- os yw'n darparu datganiad ynghylch ei dâl ar lafar, **RHAID***:
    - os yw'n gwneud datganiad mewn person, cynghori unrhyw unigolyn sy'n gwneud taliad bod yr wybodaeth am y tâl ar gael yn ysgrifenedig os ydynt am ei weld; neu
    - os nad yw'r datganiad yn cael ei wneud mewn person, cynghori unrhyw unigolyn sy'n gwneud taliad bod yr wybodaeth am y tâl ar gael yn ysgrifenedig a bydd yn ei darparu os gofynnir amdani.

Mae codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau hyn a gall ymddiriedolwyr elusen dorri'r ddyletswydd gofal os nad ydynt yn gwneud datganiadau lle y bo'n briodol neu lle y mae angen gwneud datganiadau. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau i'w cael gan OSCR a/neu dylid ceisio cyngor proffesiynol.

Yn yr Alban, yn wahanol i Gymru a Lloegr, nid yw'r rheiny sy'n gwneud casgliadau elusennol cyhoeddus wedi'u heithrio. Yn ogystal, er bod darpariaeth yn yr Alban sy'n caniatáu iddi basio rheolau de minimus tebyg i'r rhai sy'n bodoli yng Nghymru a Lloegr, nid yw wedi defnyddio'r pŵer hwn.

L10.3 Gogledd Iwerddon

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddeddfwriaeth gyfwerth yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban o ran cytundebau ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae'n arfer da i ddilyn gofynion Cymru a Lloegr.

O dan Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008, bydd yn anghyfreithlon i godwr arian proffesiynol ddeisyfu arian heb gytundeb ysgrifenedig gyda'r sefydliad y mae'n casglu ar ei gyfer sy'n bodloni'r gofynion rhagnodedig. Nid yw'r darpariaethau hyn wedi dod i rym eto, a chaiff y Cod hwn ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth maes o law.

L11.0 Dyletswyddau Ymddiriedolwyr

L11.1 Cwmpas

Mae'r adran hon yn gymwys i sefydliadau codi arian sy'n elusennau.

L11.2 Gofynion Allweddol

Prif ddyletswydd pob ymddiriedolwr elusen yw hyrwyddo dibenion eu helusen. Bydd dyletswyddau tebyg gan y rhai sydd mewn swyddi tebyg mewn sefydliadau gwirfoddol anelusennol. Wrth hyrwyddo eu dibenion elusennol, mae sawl cyfrifoldeb sylfaenol gan ymddiriedolwyr:

a) Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am weinyddu eu helusen mewn modd priodol.

RHAID* i ymddiriedolwyr sicrhau bod asedau ac adnoddau'r elusen yn cael eu defnyddio at ddibenion yr elusen yn unig a bod yr elusen yn cael ei rhedeg yn unol â'i chyfansoddiad, y gyfraith elusennau a'r holl gyfreithiau a rheoliadau cymwys eraill. Mae enghreifftiau o'r gofynion cyfreithiol a roddir ar ymddiriedolwyr ym maes codi arian yn cynnwys yr angen am gytundebau priodol â chyfranogwyr masnachol a chodwyr arian proffesiynol, a'r angen am drwyddedau priodol wrth gynnal casgliadau ar y stryd neu o dŷ i dŷ.

b) Mae ymddiriedolwyr yn gyfrifol am bopeth y mae'r elusen yn ei wneud.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am weledigaeth, cenhadaeth a rheolaeth yr elusen. Er y gallant ddirprwyo mewn rhai achosion, yr ymddiriedolwyr sy'n atebol os aiff pethau o'i le.

c) Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr weithredu'n rhesymol ac yn bwyllog wrth ddelio â phob mater sy'n ymwneud â'u helusen.

Mae'r gyfraith yn gosod dyletswydd gofal ar ymddiriedolwyr elusen, a elwir weithiau yn ddyletswydd "i arfer y gofal a'r sgil sy'n rhesymol yn yr

amgylchiadau." Bydd y ddyletswydd yn fwy os oes gan yr ymddiriedolwr, neu os yw'r ymddiriedolwr yn honni bod ganddo unrhyw wybodaeth neu brofiad arbennig, neu os yw eu busnes neu eu proffesiwn yn golygu ei bod yn rhesymol i ddisgwyl iddynt gael gwybodaeth neu brofiad arbennig. Os nad yw ymddiriedolwyr yn arbenigwyr mewn materion arbennig, disgwylir iddynt gymryd cyngor priodol.

d) **RHAID*** i ymddiriedolwyr ddiogelu a gwarchod asedau'r elusen.

Yn ogystal ag asedau amlwg megis buddsoddiadau, arian a thir, mae asedau elusen yn cynnwys ei heiddo deallusol, ei staff a'i henw da. Felly pan fydd elusen yn defnyddio gwirfoddolwyr neu godwyr arian cyflogedig i godi arian, **RHAID*** i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod yr elusen yn derbyn yr holl arian y mae hawl ganddi i'w gael. **RHAID*** i ymddiriedolwyr ystyried effaith ymgyrchoedd codi arian dadleuol hefyd ar enw da'r elusen yn y tymor hir.

e) Mae dyletswydd gan ymddiriedolwyr i weithredu ar y cyd.

Mae penderfyniadau a chyfrifoldebau yn cael eu rhannu, felly dylai pob ymddiriedolwr fod â rôl weithredol. Gall ymddiriedolwyr weithredu trwy benderfyniad y mwyafrif, oni bai bod y cyfansoddiad yn datgan fel arall a bydd rolau arbennig gan rai ymddiriedolwyr, megis y Cadeirydd a'r Trysorydd, ond mae pob ymddiriedolwr yn gyfrifol ar y cyd am y penderfyniadau a wneir gan yr ymddiriedolwyr.

f) **RHAID*** i ymddiriedolwyr weithredu er lles gorau eu helusen bob amser.

Mae buddiannau'r elusen yn hollbwysig. Ni ddylai ymddiriedolwyr ganiatáu i'w buddiannau neu eu barn bersonol fod yn drech na hyn: **RHAID*** iddynt arfer barn annibynnol.

g) **RHAID*** i ymddiriedolwyr osgoi unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau personol a buddiannau'r elusen.

Un o brif oblygiadau hyn yw bod y cyfle i ymddiriedolwyr elwa'n bersonol o'u helusen yn gyfyngedig iawn. **RHAID*** i ymddiriedolwyr ddelio'n briodol ag unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau personol a buddiannau'r elusen. **RHAID*** iddynt hefyd fod yn effro i wrthdaro posibl rhwng y dyletswyddau sydd ganddynt i sefydliadau eraill a'r dyletswyddau sydd ganddynt i'r elusen.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan y Comisiwn Elusennau yn y ddogfen ganllaw CC3: Yr Ymddiriedolwr Hanfodol.

h) Elusennau yn yr Alban

Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen gydymffurfio â Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac unrhyw reoliadau sy'n cael eu gwneud oddi dani neu sy'n effeithio ar elusennau. Yn arbennig, **RHAID*** i ymddiriedolwyr elusen ddilyn cyfansoddiad eu helusen a chydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Adran 66 o Ddeddf 2005 wrth arfer swyddogaethau yn eu rhinwedd fel ymddiriedolwr elusen. **RHAID*** iddynt weithredu er budd yr elusen, ceisio mewn ewyllys da i sicrhau bod yr elusen yn gweithredu mewn modd sy'n gyson â'i dibenion, a gweithredu â'r gofal a'r diwydrwydd y mae'n rhesymol eu ddisgwyl gan rywun sy'n rheoli materion unigolyn arall.

i) Ymddiriedolwyr yng Ngogledd Iwerddon

Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr wedi'u cynnwys yn Neddf Ymddiriedolwyr (Gogledd Iwerddon) 1958 ac yn fwy diweddar Deddf Ymddiriedolwyr (Gogledd Iwerddon) 2001 ac i gael amlinelliad o ofynion penodol Gogledd Iwerddon gweler 'Y Canllaw ar gyfer Ymddiriedolwyr' a gafodd ei lunio gan yr Adran Datblygu Cymdeithasol. Mae'r rhain yn debyg iawn i'r rhai a amlinellir yn y 'gofynion allweddol' yng Nghymru a Lloegr.

L12.0 Cyfeiriadau mewn Dogfennau

L12.1 Cwmpas

Mae'r adran hon yn gymwys i sefydliadau codi arian sy'n elusennau ac yn ymwneud â datganiadau ynghylch statws elusennol ar ddogfennau a deunyddiau sefydliadau.

L12.2 Gofynion ar draws y DU

Rhaid i elusennau sy'n gwmnïau cofrestredig ddilyn y gofynion canlynol o dan Reoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Masnachu) 2008 yn ogystal â rheolau cyfraith elusennol sy'n benodol i awdurdodaeth:

a) **RHAID*** i lythyrau busnes, ffurflenni archeb a gwefan yr elusen ddatgan y canlynol:-

- Enw llawn y cwmni;
- Rhif y cwmni;
- Lle cofrestru'r cwmni (e.e. Cymru a Lloegr neu'r Alban);
- Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni (ac os yw mwy nag un cyfeiriad yn cael ei grybwyll, **RHAID*** egluro pa gyfeiriad yw'r swyddfa gofrestredig);
- Os nad yw enw'r elusen yn cynnwys y gair 'Cyfyngedig', **RHAID*** gwneud datganiad bod yr elusen yn gwmni cyfyngedig; ac
- Os yw enwau cyfarwyddwyr yr elusen wedi'u cynnwys ar bennawd y llythyr (nad yw'n orfodol) **RHAID*** i bob cyfarwyddwr gael ei enwi.

b) **RHAID*** i enw cofrestredig y cwmni gael ei ddatgelu hefyd ar bob hysbysiad a chyhoeddiad swyddogol arall, pob siec, bil cyfnewid, nodyn addewidiol ac arnodiadau, pob archeb am arian, nwyddau neu wasanaethau; pob anfoneb a gorchymyn arall am daliad, derbynebion a llythyrau credyd, pob cais am drwyddedau i ymgymryd â masnach neu weithgaredd; a'r holl fathau eraill o ohebiaeth a dogfennaeth busnes.

L12.3 Gofynion Cymru a Lloegr

a) **RHAID*** i bob hysbysiad, hysbyseb a dogfen a gyhoeddir gan neu ar ran unrhyw elusen gofrestredig gydag incwm o fwy na £10,000 sy'n cynnwys cais am arian neu eiddo arall er budd yr elusen gynnwys datganiad sy'n nodi bod y sefydliad yn elusen gofrestredig. Mae'n arfer da i gynnwys rhif elusen gofrestredig sefydliad ar ddogfennau o'r fath.

b) Os yw'r elusen yn gwmni cofrestredig, **RHAID*** cynnwys rhif y cwmni, lle cofrestru (e.e. Cymru a Lloegr) a chyfeiriad swyddfa gofrestredig yr elusen hefyd os yw'r deunyddiau codi arian ar ffurf llythyr busnes neu wedi'i gyhoeddi ar wefan yr elusen. Fel cwmni cofrestredig, **RHAID*** i enw'r elusen gael ei ddatgelu ar yr holl ddeunyddiau codi arian a bod ar unrhyw un o'r ffurfiau canlynol:

- (a) llythyrau busnes;
- (b) hysbysiadau a chyhoeddiadau swyddogol eraill;
- (c) biliau cyfnewid, nodiadau addewidiol, arnodiadau, sieciau ac archebion am arian neu nwyddau yr honnir iddynt gael eu harwyddo ar ran yr elusen;
- (d) unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â gwerthu neu brynu budd mewn tir yr honnir iddo gael ei gyflawni gan yr elusen; a
- (e) biliau, anfonebau, derbyniadau a llythyrau credyd.

c) Os yw'r elusen yn gwmni cofrestredig ac nid yw ei enw yn cynnwys y gair 'Cyfyngedig', **RHAID*** i ddatganiad bod yr elusen yn gwmni cyfyngedig gael ei gynnwys ar bob gohebiaeth busnes.

d) Os yw'r elusen yn defnyddio is-gwmni masnachu ar gyfer codi arian sy'n gwmni cyfyngedig trwy gyfrannau sydd â chyfalaf cyfrannau, yn ogystal â'i rif cwmni, lle sefydliad a chyfeiriad y swyddfa gofrestredig, **RHAID*** i swm y cyfalaf cyfrannau a dalwyd gael ei ddatgelu hefyd os yw'r deunyddiau codi arian ar ffurf llythyr busnes neu wedi'i gyhoeddi ar ei gwefan.

L12.4 Gofynion yr Alban:

Yr unig sefydliadau sy'n gallu galw eu hunain yn "elusennau" yn yr Alban yw'r rhain sydd wedi cofrestru gydag OSCR (Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban).

a) **RHAID*** i elusennau sydd wedi cofrestru felly gydymffurfio â Rheoliadau Cyfeiriadau mewn Dogfennau Elusennau (yr Alban) 2007 a gwneud rhai datganiadau ynghylch statws eu dogfennau (gweler Adran 9.0). Mae Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban yn ddarostyngedig i reolau gwahanol ond mae'n **RHAID*** iddynt gydymffurfio ag adran 52 o Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban 2011 mewn perthynas â'r datganiadau a wnânt.

Gall elusennau dramor hefyd cyfeirio at eu hunain fel elusennau a sefydlwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth arall heblaw'r Alban heb iddynt fod yn gofrestredig, ond dim ond os ydynt yn bodloni'r meini prawf yn adran 14 o Ddeddf 2005.

b) O dan Reoliadau Cyfeiriadau mewn Dogfennau Elusennau (yr Alban) 2007, **RHAID*** i elusennau a nodir ar Gofrestr Elusennau'r Alban (heblaw Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban) nodi'r canlynol yn eu dogfennau:

- Enw llawn yr elusen;
- Unrhyw enw arall a ddefnyddir yn gyffredin;
- Rhif Elusen yr Alban; ac
- Os nad yw ei henw yn cynnwys 'elusen' neu 'elusennol' rhaid nodi ei bod yn elusen.

c) **RHAID*** defnyddio'r term 'elusen', 'corff elusennol', 'elusen gofrestredig' neu 'elusen gofrestredig yn yr Alban'. Mae'r termau 'elusen yr Alban' ac 'elusen

gofrestredig yr Alban' yn cael eu neilltuo ar gyfer elusennau a sefydlwyd yn yr Alban neu a reolir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yno.

d) Os yw elusen ar ffurf Sefydliad Corfforedig Elusennol yr Alban, **RHAID*** i'r wybodaeth nodi ei henw llawn ac, os nad yw ei henw yn cynnwys cyfeiriad at ei ffurf gyfreithiol, y ffaith ei bod yn sefydliad o'r fath. Fel mater o arfer da **RHAID** iddi nodi ei rhif elusen ac, wrth ddatgelu ei statws fel Sefydliad Corfforedig Elusennol yr Alban, nodi ei fod yn un o'r sefydliadau hynny yn hytrach na defnyddio'r acronym SCIO.

e) Yn achos Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban ac unrhyw fath arall o elusen, **RHAID*** i'r wybodaeth hon gael ei nodi ar bob llythyr busnes, e-bost, hysbyseb, rhybudd, cyhoeddiad swyddogol; unrhyw ddogfen sy'n deisyfu arian/eiddo arall ar gyfer yr elusen; nodiadau addewidiol; arnodiadau; archebion am arian neu nwyddau; biliau; anfonebau; derbyniadau; llythyrau credyd; cyfrifon statudol; dogfennau neu gynnyrch addysgol; trawsgludiadau sy'n creu, trosglwyddo, amrywio neu'n diddymu budd mewn tir; dogfennau cytundebol; biliau cyfnewid (ac eithrio sieciau); a hafan gwefan yr elusen.

f) Mae'r rheolau yn gymwys i ddogfennau a gyhoeddir neu a lofnodir gan eraill ar ran yr elusen yn ogystal â gan yr elusen ei hun. **RHAID*** i bob elusen gofrestredig yn yr Alban gydymffurfio, waeth beth fo maint neu incwm yr elusen, er bod elusennau newydd (heblaw Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban) yn cael cyfnod 'gras' cychwynnol o chwe mis.

g) Yn ogystal â rheoliadau'r DU, **RHAID*** i gwmnïau elusennol yr Alban gydymffurfio ag adran 112(6) o Ddeddf Cwmnïau 1989. Os nad yw enw'r cwmni yn cynnwys y gair 'elusen' neu 'elusennol', **RHAID*** datgelu ei statws elusennol ar bob llythyr busnes; pob hysbysiad a chyhoeddiadau swyddogol eraill; pob bil cyfnewid; nodiadau addewidiol; arnodiadau; sieciau; archebion am anian neu nwyddau yr honnir eu bod wedi'u llofnodi gan neu ar ei rhan; pob trawsgludiad yr honnir ei fod wedi'i gyflawni ganddo; pob bil parsel; anfonebau; derbyniadau; a phob llythyr credyd. Yn wahanol i reolau'r gyfraith elusennau, mae hyn hefyd yn berthnasol i sieciau. Mae unrhyw un sy'n gweithredu ar ran cwmni elusennol sy'n cyhoeddi siec heb y datganiad hwn yn cyflawni trosedd a bydd yn atebol yn bersonol am y swm sy'n ddyledus ar y siec os nad yw'n cael ei anrhydeddu gan y cwmni.

L12.5 Gofynion Gogledd Iwerddon

- Bydd Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob sefydliad sy'n gweithredu o dan un o'r dibenion elusennol cydnabyddedig, i gofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.
- Pan fydd wedi bodloni'r 'Prawf Budd Cyhoeddus' ac wedi'i gynnwys o dan ddiben elusennol cydnabyddedig, bydd y sefydliad hwnnw yn cael Rhif Cofrestru Elusen Gogledd Iwerddon ac yn cael ei roi ar y gofrestr gyhoeddus o elusennau.
- Yn wahanol i ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr, nid oes unrhyw drothwy ar gyfer trosiant wrth gofrestru elusen. Mae'n golygu y bydd rhaid i bob sefydliad bach a mawr gofrestru yn y pen draw.
- Pan fydd elusen yn paratoi i gofrestru, mae'n **RHAID*** iddo anfon ei chyfansoddiad i Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon yn gyntaf er mwyn iddo ystyried a yw'n bodloni'r prawf budd cyhoeddus neu beidio a hefyd a yw'n dod o dan un o'r dibenion elusennol a nodir yn Neddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008.

L13.0 Rafflau a Lotrïau

L13.1 Cwmpas

Mae'r adran hon yn gymwys i bob math o sefydliadau codi arian. Mae dwy awdurdodaeth gyfreithiol ar gyfer Rafflau a Lotrïau yn y DU.

Cymru, Lloegr a'r Alban (L13.3-L13.15)

Gogledd Iwerddon (L13.16)

a) **RHAID*** i sefydliadau ddilyn gofynion cyfreithiol yr awdurdodaeth berthnasol.

L13.2 Cyfeiriadau cyfreithiol yn yr adran hon:

- Deddf Hapchwarae 2005 ("y Ddeddf")
- Amodau Trwydded a Chod Ymarfer y Comisiwn Hapchwarae
- Gorchymyn Betio, Hapchwarae, Lotrïau a Difyrion (Gogledd Iwerddon) 1985

L13.3 Diffiniadau a Gofynion Allweddol

Mae'r termau 'rafflau' a 'lotrïau' yn cael eu defnyddio'n gydgyfnewidiol, ond maent yn cwmpasu'r un gweithgaredd. Mae'r Ddeddf Hapchwarae 2005 (y "Ddeddf") yn diffinio'r loteri fel trefniant lle mae unigolion yn talu am y cyfle i ennill gwobr sy'n cael ei ddewis yn gwbl ar hap (neu, os yw'r broses ddewis yn cynnwys mwy nag un cam, mae'r cam cyntaf yn dibynnu'n gyfan gwbl ar siawns). Mae'r adran hon yn edrych ar gystadlaethau a rafflau sy'n cynnig gwobrau.

a) **RHAID*** i sefydliadau ddilyn meini prawf arbennig i sicrhau nad ydynt yn rhedeg raffl anghyfreithlon.

b) **RHAID*** i sefydliadau sy'n hyrwyddo loteri cymdeithas fach gofrestru gyda'u hawdurdod lleol a dilyn y meini prawf a osodir gan y Ddeddf, yr awdurdod lleol a'r Comisiwn Hapchwarae oni bai bod y loteri yn esempt o'r gofyniad i gofrestru.

c) **RHAID*** i sefydliadau sy'n hyrwyddo cymdeithas fawr gael trwydded weithredu'r loteri i redeg raffl a dilyn y meini prawf a osodir gan y Ddeddf a'r Comisiwn Hapchwarae oni bai bod y loteri yn esempt o'r gofyniad i gael trwydded.

d) I redeg loteri esempt, **RHAID*** i sefydliadau fodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Ddeddf.

L13.3.1 Lotrïau Esempt

Yn achos y mathau canlynol o loteri nid oes rhaid i sefydliad gofrestru gyda'u hawdurdod lleol neu gael trwydded gweithredu loteri gan y Comisiwn Hapchwarae.

L13.3.2 Lotrïau atodol

a) Er mwyn cael ei chynnwys o fewn yr esemptiad: **RHAID*** i'r loteri fod yn atodol, **RHAID*** i docynnau gael eu gwerthu yn ystod y digwyddiad, ar y safle lle y cynhelir y digwyddiad, **RHAID*** i'r loteri beidio â bod yn 'rollover' a **RHAID** i ddidyniadau o'r elw sy'n mynd at achosion da **BEIDIO*** â bod yn fwy na £100 mewn costau a £500 mewn gwobrau.

L13.3.3 Loterïau preifat

Mae tri math o loteri breifat a ganiateir gan y Ddeddf - loterïau preswylwyr, lotrïau gwaith a chymdeithasau preifat - yn ogystal â lotrïau cwsmeriaid lle nad oes rhaid i sefydliad gofrestru gyda'i awdurdod lleol neu gael trwydded gweithredu loteri gan y Gomisiwn Hapchwarae.

Ar gyfer pob loteri breifat:

a) **RHAID*** i bris pob tocyn fod yr un fath;

b) **RHAID PEIDIO*** â defnyddio 'rollover'; ac

c) mae'r hawliau sy'n gysylltiedig â thocynnau loteri breifat yn anhrosglwyddadwy.

Lotrïau preswylwyr

d) **RHAID*** i docynnau i gystadlu mewn loteri preswylwyr gael eu gwerthu i breswylwyr mewn un set o safleoedd gan gydbreswylwyr.

e) **RHAID*** i'r loteri gael ei threfnu er mwyn peidio â gwneud unrhyw elw ac mae'r holl enillion yn cael eu defnyddio ar gyfer treuliau rhesymol a gwobrau neu, ar ôl tynnu treuliau rhesymol a gwobrau, mae'r elw yn cael ei roi at achos da (megis elusen).

Lotrïau gwaith

f) **RHAID*** i docynnau i gystadlu mewn loteri gwaith gael eu gwerthu i weithwyr mewn un set o safleoedd gan gydweithwyr.

g) **RHAID*** i'r loteri gael ei threfnu er mwyn peidio â gwneud unrhyw elw ac mae'r holl enillion yn cael eu defnyddio ar gyfer treuliau rhesymol neu wobrau neu, ar ôl tynnu treuliau rhesymol a gwobrau, mae'r elw yn cael ei roi at achos da (megis elusen).

Lotrïau cymdeithas preifat

h) Gall sefydliadau (ac eithrio'r rheiny a sefydlwyd ar gyfer hapchwarae) hyrwyddo loteri cymdeithas breifat i godi arian, ond **RHAID*** i docynnau gael eu gwerthu i aelodau o'r sefydliad neu'r rhai sydd ar ei safle yn unig.

i) **RHAID*** i hyrwyddwr loteri cymdeithas breifat fod yn aelod o'r sefydliad a gweithredu o dan ei awdurdodiad ysgrifenedig.

Lotrïau cwsmeriaid

j) Prin iawn y caiff lotrïau cwsmeriaid eu defnyddio i godi arian oherwydd mae'n **RHAID*** i'r holl enillion gael eu defnyddio ar gyfer treuliau a gwobrau rhesymol. **RHAID*** i docynnau i gystadlu mewn loteri cwsmeriaid gael eu gwerthu o safle busnes i gwsmeriaid y busnes hwnnw. Mae gofynion penodol ynghylch cynnwys y tocynnau a gwerth y gwobrau.

L13.3.4 Loterïau cymdeithas

a) **RHAID*** i lotrïau cymdeithas gael eu hyrwyddo er budd: elusennau, sefydliadau a ffurfiwyd at y diben o alluogi cymryd rhan mewn, neu gefnogi chwaraeon, athletau neu weithgaredd diwylliannol; neu sefydliadau eraill sy'n gweithredu at ddiben anfasnachol ac nid at ddiben gwneud elw preifat.

Mae dau fath o loteri cymdeithas:

- lotrïau cymdeithas bach, lle mae gwerth tocynnau mewn unrhyw loetri heb fod yn fwy na £20,000 a heb fod yn fwy na £250,000 mewn unrhyw flwyddyn
- lotrïau cymdeithas mawr: lle mae'r cyfyngiadau uchod wedi'u rhagori. Os yw cymdeithas yn rhedeg loteri cymdeithas fawr, bydd pob loteri y mae'n ei hyrwyddo yn y tair blynedd ganlynol yn loteri cymdeithas fawr hefyd.

Mae llawer o'r gofynion yr un fath ar gyfer lotrïau cymdeithas bach a mawr, ac felly mae'r adran hon yn defnyddio'r term generig "loteri cymdeithas". Os oes gwahaniaeth, mae'r Cod yn cyfeirio at lotrïau cymdeithas bach neu lotrïau cymdeithas mawr, fel y bo'n briodol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr atebion i'r cwestiynau cyffredin gan y Comisiwn Hapchwarae.

L13.4 Trwyddedu a Chaniatâd

L13.4.1 Lotrïau Cymdeithas Bach

a) **RHAID*** i gymdeithas gofrestru gydag awdurdod lleol yr ardal lle mae wedi'i lleoli cyn y gall rhedeg unrhyw lotrïau cymdeithas bach.

L13.4.2 Lotrïau Cymdeithas Mawr

a) **RHAID*** i loteri cymdeithas fawr gael ei rhedeg o dan drwydded gan y Comisiwn Hapchwarae.

Mae dau fath o drwydded: trwydded weithredu, sy'n awdurdodi unigolyn neu sefydliad i hyrwyddo lotrïau; a thrwydded rheoli personol, sy'n awdurdodi unigolyn i berfformio swyddogaethau rheoli neu weithredu penodol mewn perthynas â hyrwyddo lotrïau o dan drwydded weithredu. Rhaid cael trwydded rheoli personol os oes trwydded weithredu gan sefydliad ac mae gan fwy na thri unigolyn y prif gyfrifoldeb dros reoli, materion ariannol a/neu hyrwyddo'r loteri.

b) **RHAID*** i weithredwyr lotrïau lle nad yw unrhyw drwydded rheoli personol yn ofynnol benodi "person cyfrifol" sy'n **RHAID*** gwblhau ffurflen datganiad personol a datgeliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (yng Nghymru a Lloegr), ffurflen Datgeliad yr Alban (yn yr Alban) neu ffurflen Access NI (yng Ngogledd Iwerddon).

c) **RHAID*** i bob cymdeithas sy'n bwriadu rhedeg loteri cymdeithas fawr gael trwydded weithredu i gwmpasu lotrïau o bell (lotrïau lle mae tocynnau'n cael eu cyrchu'n electronig, h.y. y rhyngrwyd, dros y ffôn, teledu neu radio) a/neu lotrïau heb fod yn rhai o bell (lle mae tocynnau'n cael eu prynu gan yr unigolyn).

L13.5 Rôl yr Hyrwyddwr

a) **RHAID** i'r hyrwyddwr unigol dynodedig gael ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan gorff llywodraethu'r gymdeithas i weithredu yn y rhinwedd honno.

b) Mae hyrwyddwr loteri yn gyfrifol yn bersonol yn ôl y gyfraith am gyfreithlondeb a chynnal y loteri a **RHAID** sicrhau bod y rhai sy'n dosbarthu a gwerthu tocynnau yn ymwybodol o'r rheoliadau sy'n gymwys, hyd yn oed os yw dosbarthu tocynnau wedi'i is-gontractio.

L13.6 Tocynnau

Mae'r adran hon yn ymwneud â thocynnau ar gyfer lotrïau cymdeithas (h.y. lotrïau a hyrwyddir gan sefydliadau sydd wedi cofrestru â'u hawdurdod lleol neu sydd â thrwydded gweithredu loteri gan y Comisiwn Hapchwarae).

- a) **RHAID*** i'r cwsmer dderbyn dogfen (gall fod yn docyn, yn gerdyn crafu neu'n ddogfen electronig y gallant eu cadw neu eu hargraffu).
- b) **RHAID*** i'r ddogfen hon gynnwys y manylion canlynol:

    - enw'r gymdeithas y mae'r loteri yn cael ei hyrwyddo ar ei ran
    - enw a chyfeiriad y sawl y mae'r gymdeithas wedi'i awdurdodi i hyrwyddo'r loteri (y rheolwr loetri allanol, os defnyddir un)
    - dyddiad tynnu'r loteri
- c) **RHAID*** i docynnau ar gyfer lotrïau cymdeithas mawr hefyd nodi bod y loteri wedi'i thrwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae a rhoi manylion am wefan y Comisiwn Hapchwarae.
- d) Er nad oes unrhyw gyfyngiadau ar bris tocynnau, **RHAID*** i bris pob tocyn fod yr un fath a chael ei ddangos ar y tocyn (neu ddogfen arall) a **RHAID PEIDIO*** â rhoi unrhyw ddisgownt (e.e. gwerthu pump am bris pedwar)
- e) **RHAID*** i'r pris gael ei dalu cyn i'r cwsmer fod yn gymwys i ennill gwobr.
- f) **RHAID** i sefydliad **BEIDIO*** â gofyn i gwsmeriaid dalu mwy na phris tocyn i fod yn gymwys i gystadlu yn y loteri.
- g) **RHAID*** i docynnau **BEIDIO*** â chael eu gwerthu i unigolion o dan 16 oed. Nid yw'r terfyn oedran hwn yn gymwys i lotrïau atodol, masnachol a phreifat.
- h) **RHAID** i docynnau **BEIDIO*** â chael eu gwerthu ar y stryd, ond gallant gael eu gwerthu mewn ciosg.
- i) Caniateir gwerthu o ddrws i ddrws ond **RHAID*** i gymdeithasau gydymffurfio â'r gyfraith gwerthu o ddrws i ddrws.
- j) **RHAID*** i gwsmeriaid gael mynediad, yn ysgrifenedig, i delerau cytundebol y loteri.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr atebion i'r cwestiynau cyffredin gan y Comisiwn Hapchwarae.

L13.7 Gwobrau

a) Mewn lotrïau cymdeithas bach, **RHAID** i werth y brif wobr ar gyfer pob loteri **BEIDIO*** â bod yn fwy na £25,000.

b) Mewn lotrïau cymdeithas mawr, **RHAID** i'r sawl sy'n prynu tocyn **BEIDIO*** â gallu ennill mwy na £25,000 gyda'r tocyn hwnnw, neu 10% o enillion y loteri, os yw'n fwy na hynny.

c) Caniateir lotrïau 'rollover' ond **RHAID** i'r loteri **BEIDIO*** â thorri'r uchafswm lwfansau gwobrau perthnasol.

d) **RHAID** i lotrïau **BEIDIO*** â chael eu cysylltu â lotrïau neu gystadlaethau eraill os oes posibilrwydd y gallai'r uchafswm gwobr statudol mewn loteri gael ei ragori

(e.e. mae prynu un tocyn yn golygu bod cwsmer yn cystadlu'n awtomatig mewn ail loteri).

L13.8 Enillion

a) Mewn lotrïau cymdeithas bach, **RHAID** i werth y brif wobr ar gyfer pob loteri **BEIDIO*** â bod yn fwy na £25,000.

b) Mewn lotrïau cymdeithas mawr, **RHAID** i rywun sy'n prynu tocyn **BEIDIO*** â gallu ennill mwy na £25,000 gyda'r tocyn hwnnw, neu 10% o enillion y loteri, os yw'n fwy na hynny.

c) Caniateir lotrïau 'rollover' ond **RHAID** i'r loteri **BEIDIO*** â thorri'r uchafswm lwfansau gwobrau perthnasol.

d) **RHAID** i lotrïau **BEIDIO*** â chael eu cysylltu â lotrïau neu gystadlaethau eraill os oes posibilrwydd y gallai'r uchafswm gwobr statudol mewn loteri gael ei ragori (e.e. mae prynu un tocyn yn golygu bod cwsmer yn cystadlu'n awtomatig mewn ail loteri).

L13.9 Dewis enillydd

a) **RHAID** dewis enillydd ym mhresenoldeb tyst a'i gofnodi.

b) **RHAID** i holl fonion tocynnau a brynwyd gael eu cynnwys.

c) I drosglwyddo enwau cystadleuwyr hwyr i'r loteri nesaf, **RHAID** egluro pan werthir y tocyn y caiff hyn ei wneud.

d) Os, am unrhyw reswm, mae angen gohirio dyddiad tynnu'r loteri o'r hyn a nodir ar y tocyn, **RHAID** i'r holl gamau rhesymol gael eu cymryd i sicrhau bod cyfranogwyr yn ymwybodol o'r newid a **RHAID** trafod hyn â'r awdurdod trwyddedu perthnasol.

L13.10 Y Drefn ar ôl tynnu'r tocyn buddugol

a) **RHAID** i'r holl fonion a gwblhawyd a phob taliad gael eu dychwelyd i'r hyrwydd at ddibenion archwilio.

b) **RHAID** i unrhyw wobr a ddychwelir i'r gymdeithas gan berchennog cyfreithiol y tocyn buddugol gael ei ddangos yng nghofnodion cyfrifyddu'r loteri fel rhodd.

c) **RHAID** i fanylion enillwyr **BEIDIO** â chael eu cyhoeddi heb ei gydsyniad penodol.

d) **RHAID** cysylltu â'r holl enillwyr o fewn saith diwrnod o dynnu'r tocyn buddugol.

e) **RHAID** gwneud pob ymdrech rhesymol i roi gwobrau i'r rheiny sydd â'r tocynnau buddugol.

L13.11 Cadw Cofnodion a Gohebu â'r Awdurdod Trwyddedu

L13.11.1 Gofynion Cyffredinol

a) **RHAID*** i bob cofnod gael ei gadw am o leiaf tair blynedd ar gyfer pob loteri.

L13.11.2 Lotrïau cymdeithas bach

a) O fewn tri mis o dynnu'r tocyn buddugol **RHAID*** i'r gymdeithas anfon ffurflen i'r awdurdod lleol wedi'i harwyddo gan ddau unigolyn awdurdodedig yn ysgrifenedig gan y Gymdeithas.

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y ffurflen yn cynnwys:

- y dyddiad pan oedd y tocynnau ar werth;
- dyddiad tynnu'r tocyn buddugol;
- cyfanswm enillion y loteri;
- y symiau a ddidynnwyd wrth ddarparu gwobrau (gan gynnwys gwobrau rollover)
- y swm a ddidynnwyd ar gyfer treuliau;
- y swm a ddefnyddiwyd at ddibenion y gymdeithas (o leiaf 20% o'r enillion); a
- a gafodd unrhyw dreuliau a gododd eu talu o ffynhonnell heblaw enillion y tocynnau a werthwyd ac, os felly, beth oedd y ffynhonnell.

L13.11.3 Lotrïau cymdeithas mawr

a) **RHAID*** i'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y trwyddedau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae a'r sefydliadau fodloni'r rhwymedigaethau hyn, a fydd yn cynnwys:

- cadw cofnodion cywir o bob loteri y maent yn ei rhedeg, gan ddangos:
    - cyfanswm enillion y loteri;
    - canran yr enillion a ddefnyddiwyd ar gyfer gwobrau;

    - swm enillion y loteri a ddefnyddiwyd ar gyfer treuliau; a
    - chyfanswm y tocynnau a werthwyd a heb eu gwerthu.

- anfon disgrifiad i'r Comisiwn Hapchwarae o reolau'r loteri, a/neu gopi o reolau'r loteri, o leiaf 28 diwrnod cyn i'r tocynnau loteri fynd ar werth;
- o fewn tri mis o dynnu'r loteri (neu, yn achos loteri cerdyn crafu, o fewn tri mis o'r tocynnau yn peidio â bod ar gael i'w gwerthu), anfon datganiad i'r Comisiwn Hapchwarae gyda manylion am enillion y loteri a sut y cafodd yr enillion eu dosbarthu rhwng gwobrau, treuliau a dibenion y gymdeithas. **RHAID*** i'r datganiad hwn gael ei ddilysu gan ddeiliad trwydded rheolaeth bersonol y gymdeithas neu, os yw'r gymdeithas wedi'i heithrio rhag yr angen i gael trwydded o'r fath, gan y "person cyfrifol".
- ar ddiwedd bob blwyddyn (neu chwarter, yn dibynnu ar delerau'r drwydded) anfon ffurflen i'r Comisiwn Hapchwarae yn rhoi pa bynnag wybodaeth sydd ei hangen ar y Comisiwn; a
- chadw cofnodion cyfrifyddu o bob loteri am o leiaf tair blynedd yn dilyn tynnu'r loteri.

b) **RHAID*** i gymdeithasau gysylltu â'r Comisiwn Hapchwarae hefyd os ydynt yn amau bod rhywun yn torri'r gyfraith hapchwarae neu mewn amgylchiadau penodol eraill a nodir yn amodau Trwydded a Chodau Ymarfer y Comisiwn Hapchwarae.

c) **RHAID*** i ddeiliaid trwydded gydymffurfio â chodau ymarfer y Comisiwn Hapchwarae y cyfeirir atynt uchod.

L13.12 Rhedeg Loteri trwy Is-gwmni Masnachu

Gall sefydliadau redeg loteri trwy is-gwmni masnachu ond **RHAID*** iddynt barhau i wneud cais am drwydded gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol. Bydd y Comisiwn Hapchwarae yn rhoi caniatâd ar yr amod eu bod yn bodloni amodau arbennig.

L13.13 Defnyddio Rheolwr Loteri Allanol

Mae rheolwyr lotri allanol yn unigolion neu'n sefydliadau sydd wedi cael eu trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae i hyrwyddo lotrïau ar ran cymdeithasau eraill.

RHAID* i gymdeithasau sy'n defnyddio rheolwyr lotri allanol barhau i geisio trwydded weithredu ac oni bai eu bod nhw wedi'u heithrio, efallai y bydd angen trwydded rheoli personol arnynt.

L13.14 Ystyriaethau heblaw'r Ddeddf Hapchwarae

a) **RHAID** i gymdeithas sy'n defnyddio llinell ffôn premiwm er mwyn i bobl allu cymryd rhan yn ei lotrïau gydymffurfio â'r cod ymarfer a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ffôn Daledig (PSA), sef rheoleiddio annibynnol gwasanaethau cyfradd premiwm yn y DU, y mae nifer o adrannau o'i god yn berthnasol i lotrïau.

b) **RHAID** i gymdeithasau sy'n hyrwyddo lotrïau gydymffurfio ag adran 8 o God Hysbysebu a Hyrwyddo Gwerthiannau a Marchnata Uniongyrchol y DU (Cod CAP).

L13.15 Cystadleuaeth Gwobr a Rafflau Am Ddim

Mae cystadlaethau gwobr â rafflau am ddim heb eu cynnwys o dan reolaeth statudol o fewn y Ddeddf Hapchwarae.

a) Er mwyn bod yn gystadleuaeth gwobrau, yn y trefniant hwn **RHAID*** i'r cyfranogwr arfer lefel o wybodaeth neu farn neu arddangos elfen o sgil a fydd yn cyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr.

b) I fod yn gystadleuaeth am ddim, **RHAID*** i'r trefniant fod ar ddull 'rhydd' o gystadlu, sy'n **RHAID*** hefyd fod yn gyfleus, ac yn hygyrch a **RHAID*** i'r cyfranogwr fod â'r un siawns fel pe bai'n cystadlu trwy unrhyw lwybr daledig.

L13.16 Rafflau yng Ngogledd Iwerddon

a) **RHAID*** i lotrïau gael eu cynnal yng Ngogledd Iwerddon dim ond os ydynt yn cydymffurfio â Gorchymyn Betio, Hapchwarae a Lotrïau (Gogledd Iwerddon) 1985, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Betio a Hapchwarae (Gogledd Iwerddon) 1994 ac fel y'i ategir gan Reoliadau Lotiau (Gogledd Iwerddon) 1994.

L13.16.1 Lotrïau Bach mewn Digwyddiadau Adloniant Esempt

a) **RHAID*** i'r loteri gael ei chynnal yn ystod digwyddiad adloniant.

b) **RHAID*** i lotrïau o dan y pennawd hwn fodloni'r meini prawf canlynol.

- **RHAID*** i'r sawl sy'n trefnu'r digwyddiadau roi gwybod i'r heddlu o leiaf saith diwrnod cyn y digwyddiad ei hun ei fod yn cael ei gynnal;
- **RHAID** i'r loteri **BEIDIO*** â bod yr unig gymhelliad, neu'r unig gymhelliad sylweddol i'r cyhoedd fynychu'r digwyddiad adloniant lle mae'r loteri yn cael ei chynnal;
- **RHAID*** i docynnau gael eu gwerthu ar y safle lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal yn unig;
- **RHAID*** i'r enillwyr gael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad;
- **RHAID*** i holl enillion y digwyddiad (ar ôl didynnu treuliau) gael eu defnyddio ar gyfer dibenion heblaw budd preifat;
- **RHAID*** i drefnwyr y digwyddiad ddweud wrth y cyfranogwyr yn y loteri sut y bwriedir defnyddio'r enillion; a
- **RHAID*** i drefnwr y digwyddiad gadw cofnodion a chyfrifon o'r adloniant, gan gynnwys cofnod o sut y bwriedir defnyddio'r enillion o'r adloniant.

L13.16.1 Loterïau Preifat

Mae loteri breifat yn un sy'n cael ei hyrwyddo gan ac i aelodau un gymdeithas a all werthu tocynnau i eraill nad ydynt yn aelodau ar safle'r gymdeithas.

a) **RHAID** i loteri breifat **BEIDIO*** â chodi mwy na £1,000 trwy werthu tocynnau.

b) **RHAID*** i'r holl enillion, ar ôl costau argraffu a phapurach, gael eu neilltuo ar gyfer gwobrau neu ddiben y gymdeithas, neu'r ddau.

c) **RHAID*** i bob tocyn gynnwys datganiad sy'n nodi na fydd unrhyw wobr a enillir yn cael ei thalu neu ei rhoi i unrhyw un heblaw'r sawl y cafodd y tocyn buddugol neu'r siawns ei werthu iddo.

d) Ni all unrhyw docyn neu siawns gael ei rhoi ac eithrio trwy gyfrwng gwerthu a **RHAID*** i'r pris llawn gael ei dalu amdano pan gaiff ei rhoi. Mae hyn yn golygu na all unrhyw docyn neu siawns gael ei werthu am ddisgownt, er enghraifft 5 am bris 4.

e) **RHAID** i docynnau a werthir yn y loteri **BEIDIO** â chael eu hanfon trwy'r post.

f) **RHAID** i gyfanswm y treuliau (ac eithrio gwobrau) a neilltuir o'r enillion **BEIDIO*** â bod yn fwy na ph'un bynnag yw'r lleiaf o'r treuliau a godir neu 10 y cant o'r enillion.

g) **RHAID*** i gymdeithas sydd am weithredu loteri breifat hefyd ddilyn y rheolau sy'n ymwneud â hysbysebu'r loteri.

h) **RHAID** i gymdeithasau **BEIDIO*** â hysbysebu'r loteri trwy unrhyw ddull arall heblaw hysbysiad ar ei heiddo.

L13.16.2 Loterïau Cymdeithas

Loteri gymdeithas yw un sy'n cael ei rhedeg gan gymdeithas anfasnachol, ond sydd heb fod yn loteri fach nag yn loteri breifat ac mae tocynnau yn cael eu gwerthu i'r cyhoedd. Mae cymdeithas yn anfasnachol os yw wedi'i sefydlu a'i chynnal ar gyfer: dibenion elusennol gyda'r diben o alluogi cyfranogwyr i gymryd rhan mewn neu gefnogi chwaraeon athletaidd, gemau neu weithgareddau diwylliannol unrhyw ddibenion anfasnachol eraill heblaw i wneud elw preifat.

a) **RHAID*** i gymdeithas sydd am hyrwyddo loteri gymdeithas gael trwydded gan y Cyngor Dosbarth lle y mae wedi'i lleoli trwy anfon ffurflen gais ynghyd â chopi o'i gynllun loteri cymeradwy a'r ffi cais perthnasol; **RHAID*** iddi hefyd roi copi o'i chais trwydded i bencadlys yr heddlu lleol.

b) I gynnal ei chofrestriad **RHAID*** i gymdeithas anfon ffi adnewyddu ar 1 Ionawr bob blwyddyn ynghyd â chopi o'i chynllun loteri wedi'i ddiweddaru, os yw'n wahanol i'r un a gyflwynwyd yn y flwyddyn flaenorol, i'r Cyngor Dosbarth.

c) **RHAID*** i loteri gymdeithas yng Ngogledd Iwerddon gael ei hyrwyddo yng Ngogledd Iwerddon gan aelod o'r gymdeithas sydd wedi cael ei awdurdodi yn ysgrifenedig.

d) Os yw rheolwyr/ymgynghorwyr loteri yn cael eu defnyddio, **RHAID*** i'r dystysgrif loteri gael ei cheisio yn gyntaf o'r llys ynadon.

e) **RHAID*** i docynnau nodi: enw'r gymdeithas; enw a chyfeirio yr hyrwyddwr; enw a chyfeiriad y Cyngor Dosbarth lle mae'r loteri wedi'i chofrestru; a dyddiad y loteri.

f) **RHAID** i docynnau **BEIDIO*** â chael eu gwerthu: yn y stryd; i neu gan unrhyw un o dan 16 oed; mewn swyddfa betio; ar gyfer mwy na £1 yr un; o ddrws i ddrws gan bobl sy'n ymwneud â chartrefi pobl fel rhan o'u gwaith; fel grŵp o docynnau mewn set o lotrïau lle mae'r enillydd yn ennill gwobr ym mhob loteri; neu trwy gyfrwng peiriant.

g) Yr unig ffordd o gymryd rhan yn y loteri yw trwy brynu tocyn a **RHAID*** i'r tocyn gael ei dalu amdano yn llawn cyn i'r prynwr allu cymryd rhan yn y loteri.

h) Ni all arian tocynnau gael ei ddychwelyd a **RHAID*** i wobrau fod fel yr hyn a nodir ar y tocyn.

i) **RHAID*** i bris pob tocyn a werthir fod yr un fath a **RHAID** i docynnau **BEIDIO*** â chael eu gwerthu fel, er enghraifft, 5 am bris 4.

j) Os yw cymdeithas yn hyrwyddo dwy loteri neu ragor gyda'r un dyddiad, **RHAID*** i'r tocynnau a werthir ym mhob loteri fod â rhif cyfres i nodi pa un o'r lotrïau y maent yn cyfeirio atynt.

k) **RHAID** i docynnau buddugol **BEIDIO*** â bod yn adnabyddadwy ymlaen llaw a **RHAID** i ennill **BEIDIO*** â dibynnu ar brynu mwy nag un tocyn, oni bai bod pris prynu'r cyfanswm tocynnau heb fod yn fwy na £1.

l) **RHAID** i swm enillion y loteri y gellir ei ddidynnu i dalu treuliau (ac eithrio gwobrau) **BEIDIO*** â bod yn fwy na ph'un bynnag yw'r lleiaf o'r canlynol:

- y treuliau a gafwyd;
- os yw'r enillion yn £10,000 neu lai, 20% o'r enillion; neu
- os yw'r enillion yn fwy na £10,000, 15% o'r enillion.

m) **RHAID** i gyfanswm gwerth y tocynnau a werthir mewn un loteri **BEIDIO*** â bod yn fwy nag £80,000 a **RHAID** i'r cyfanswm a werthir gan y gymdeithas ar gyfer pob loteri a hyrwyddir mewn unrhyw gyfnod o 12 mis **BEIDIO*** â bod yn fwy na £1 miliwn

n) Ni all unrhyw wobr fod yn werth mwy na £25,000 neu 10% o'r enillion (p'un bynnag yw'r mwyaf) a **RHAID** i'r cyfanswm sy'n cael ei wario ar wobrau **BEIDIO*** â bod yn fwy na 50% o'r enillion.

o) **RHAID*** i'r holl enillion, ar ôl didyniadau cyfreithlon, gael eu defnyddio at ddibenion y gymdeithas.

p) Pan fydd y loteri wedi dod i ben **RHAID*** i'r hyrwyddwr o fewn tri mis o ddyddiad y loteri, anfon yr wybodaeth ganlynol i'r Cyngor Dosbarth.

- ffurflen wedi'i chwblhau; a
- chopi o docyn

q) **RHAID*** i gymdeithasau gadw copïau o'r holl ffurflenni, biliau ategol, derbyniadau a chyfrifon am o leiaf 18 mis ar ôl dyddiad y loteri a gellir gofyn iddynt roi copïau o'r wybodaeth uchod i'r Cyngor Dosbarth neu Wasanaeth yr Heddlu Gogledd Iwerddon.

r) **RHAID** i docynnau a werthir yn y loteri **BEIDIO** â chael eu hanfon trwy'r post.

L14.0 Diogelu Data

Mae Diogelu Data yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer pob sefydliad codi arian ac mae'n effeithio ar yr holl weithgareddau prosesu data gan gynnwys:

- sut caiff data ei gasglu
- i ba bwrpas y caiff ei gasglu
- sut caiff data ei ddefnyddio
- y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu data
- sut caiff data ei storio ac am ba mor hir
- sut caiff gwybodaeth bersonol ei chadw'n gyfoes
- sut caiff data ei newid neu ei ddileu

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn darparu rhagor o wybodaeth a chyfarwyddyd ar ddiogelu data.

Mae angen i sefydliadau gydymffurfio â gofynion:

- y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003

Mae'r Cod Ymarfer Codi Arian yn darparu crynodeb o'r maes cymhleth a newidiol hwn o'r gyfraith ac ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cyngor cyfreithiol proffesiynol.

- Mae Adran 5: Gwybodaeth Bersonol a Chodi Arian yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y gofynion yn ymwneud â diogelu data.
- Gweler hefyd Cyfarwyddyd Diogelu Data y Rheoleiddiwr Codi Arian.